

# S4C

**Adroddiad Blynyddol  
a Datganiad Ariannol**  
ar gyfer y cyfnod 12 mis  
hyd at 31 Mawrth 2019

**Annual Report and  
Statement of Accounts**  
for the 12 month period  
to 31 March 2019



The logo for S4C, consisting of the letters 'S4C' in a bold, white, sans-serif font, centered within a black trapezoidal shape that tapers to the right.

**Adroddiad Blynyddol a  
Datganiad Ariannol S4C ar  
gyfer y cyfnod 12 mis hyd  
at 31 Mawrth 2019**

Cyflwynir i'r Senedd yn sgîl  
paragraffau 13(1) a 13(2) i  
atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

Gosodir gebron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru yn unol â  
phenderfyniad gan y Cynulliad  
o dan Reol Sefydlog 15.1(v).

**S4C Annual Report and  
Statement of Accounts for  
the 12 month period to  
31 March 2019**

Presented to Parliament pursuant  
to paragraphs 13(1) and 13(2) of  
schedule 6 to the Broadcasting  
Act 1990.

Laid before the National Assembly  
for Wales in accordance with a  
resolution of the Assembly under  
Standing Order 15.1(v).



Mae S4C yn darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngol yn yr iaith Gymraeg sydd o safon uchel, sy'n cynnig adloniant, gwybodaeth ac sy'n ysbrydoli, ac sy'n anelu i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl ar y llwyfannau cyfoes mwyaf priodol.

S4C provides high quality content and media services in the Welsh language, offering entertainment, information and inspiration, and which aim to reach the widest audience possible across a range of contemporary platforms.

## Cynnwys Contents

4	S4C a'r iaith Gymraeg	4	S4C and the Welsh language
6	Y prif ffeithiau	6	Key facts
8	Cyflwyniad y Cadeirydd	8	Chairman's Introduction
14	Cyflwyniad y Prif Weithredwr	14	Chief Executive's Introduction
18	Sut berfformiodd S4C yn 2018/19	18	How S4C performed in 2018/19
44	<b>Mesur Perfformiad S4C:</b>	44	<b>Measuring S4C's Performance:</b>
46	Defnydd a Chyrhaeddiad	46	Usage and Reach
56	Gwerthfawrogiad	56	Appreciation
66	Effaith	66	Impact
76	Gwerth am Arian	76	Value for Money
86	Gwasanaethau Cymorth i'n Cynulleidfa	86	Support Services for our Audience
87	Gweithagreddau S4C ledled Cymru	87	S4C's activities across Wales
91	Partneriaeth S4C gyda'r BBC	91	S4C's partnership with the BBC
92	Canolfan S4C Yr Egin	92	Canolfan S4C Yr Egin
93	Gweithagreddau Masnachol S4C	93	S4C's Commercial Activities
94	Adolygiad S4C	94	Review of S4C
97	Adroddiad Llywodraethiant	97	Governance Report
112	Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a Materion Cyffredinol	112	Report of the Chairman of the Audit, Risk Management and General Purpose Committee
114	Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C	114	S4C's Employment Policy Report
	<b>Datganiad Ariannol</b>		<b>Statement of Accounts</b>
118	Adroddiad y Bwrdd	118	Report of the Board
120	Oriau a ddarllledwyd a chyfarteledd cost yr awr	120	Hours transmitted and average cost per hour
122	Datganiad o Gyfrifoldebau	122	Statement of Responsibilities
124	Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Bwrdd S4C	124	Independent Auditor's report to the Members of the S4C Board
128	Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr	128	Consolidated Statement of Comprehensive Income
130	Mantolen Gyfun	130	Consolidated Balance Sheet
132	Mantolen S4C	132	S4C Balance Sheet
134	Datganiad Cyfun o Newidiadau Mewn Ecwiti	134	Consolidated Statement of Changes in Equity
136	Datganiad Llif Arian Cyfun	136	Consolidated Cash Flow Statement
138	Nodiadau i'r Cyfrifon	138	Notes to the Accounts

## © S4C 2019

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o [s4c.cymru](http://s4c.cymru)

## © S4C 2019

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is done so accurately and not in a misleading context.

The material must be acknowledged as S4C copyright and the document title specified.

This document is available for download from [s4c.cymru](http://s4c.cymru)



Mae S4C wedi ymrwymo i gefnogi defnydd a datblygiad yr iaith Gymraeg. **S4C is committed to supporting the use and development of the Welsh language.**

## S4C a'r iaith Gymraeg S4C and the Welsh language

### **Mae'r iaith Gymraeg yn greiddiol i fodolaeth S4C.**

Mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg - un o drysorau Cymru a'r DU.

Mae 19% o boblogaeth Cymru a 40% o blant rhwng 5-15 oed yn siarad Cymraeg.

Mae S4C wedi sefydlu partneriaeth iaith newydd gyda Llywodraeth Cymru.

Argymhellodd yr Adolygiad Annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith newydd gyda Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn cynorthwyo i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Datblygodd partneriaeth iaith S4C gydag Urdd Gobaith Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Mentrau iaith ymhellach yn ystod y flwyddyn, gyda nifer o brosiectau ar y gweill.

### **The Welsh language is central to S4C's existence.**

S4C plays a key role in reflecting Welsh culture and society and promoting the Welsh language - one of the treasures of Wales and the UK.

19% of the population of Wales and 40% of children between 5-15 years old speak Welsh.

S4C has established a new language partnership with Welsh Government.

The Independent Review of S4C published in March 2018 recommended that S4C should establish a new language partnership with the Welsh Government and others to help deliver the Welsh Government's commitment to reach 1 million Welsh language speakers by 2050.

S4C's language partnership with Urdd Gobaith Cymru, the National Eisteddfod, the National Centre for Learning Welsh, and the Mentrau iaith developed further during the year with numerous projects developed.





**10.1m**

10.1 miliwn o bobl wylodd S4C drwy'r DU ar ryw adeg yn 2018/19 (2017/18: 9.4m)  
**10.1 million individuals watched S4C throughout the UK at some time during 2018/19 (2017/18: 9.41m)**

**6.8m**

Hansh - 6.8 miliwn o sesiynau gwyllo arlein - gyda mwyafrif y gwyllo gan y gynulleidfa 16-34 oed  
**Hansh - 6.8 million online viewing sessions - with most viewing from 16-34 year olds**



**665,000**

665,000 o bobl yn gwyllo S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU (2017/18: 690,000)  
**665,000 people watched S4C on TV every week throughout the UK (2017/18: 690,000)**

**£0.79**

Dim ond 79 ceiniog yr wythnos y mae'n costio i ddarparu gwasanaeth S4C fesul gwylwr teledu  
**It costs only 79 pence a week to provide S4C's service for each TV viewer**

**8.6m**

8.6 miliwn o sesiynau gwyllo ar S4C Clic a BBC iPlayer (2017/18: 8.2m)  
**8.6 million viewing sessions on S4C Clic and BBC iPlayer (2017/18: 8.2m)**



**38.2m**

38.2 miliwn o sesiynau gwyllo ar gyfryngau cymdeithasol (2017/18: 37.1m)  
**38.2 million social media viewing sessions (2017/18: 37.1m)**

**50**

Gweithiodd S4C gyda mwy na 50 o gwmnïau cynhyrchu a phartneriaid yn y sector creadigol yng Nghymru a'r DU  
**S4C worked with more than 50 production companies and partners in the creative sector in Wales**



**26,500**

Mwy na 26,500 o wylwyr wedi mynychu digwyddiadau cyhoeddus S4C  
**More than 26,500 audience members attended S4C's public events**

**28%**

28% o wylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg wedi gwyllo fideos S4C ar gyfryngau cymdeithasol  
**28% of Welsh speaking viewers watched S4C's short form videos via social media**

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - gwylwyr sy'n siarad Cymraeg)  
 (Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers)  
 (Beaufort Research 2019)

**4.1m**

Sgorio "Do the Dai!" - 4.1 miliwn sesiwn gwyllo ar Twitter - Sesiynau uchaf erioed i fideo unigol gan S4C  
**Sgorio "Do the Dai!" - 4.1 million viewing sessions on Twitter - S4C's highest scoring individual video**

**46.9m**

Mae gwyllo arlein yn parhau i dyfu'n sylweddol - 46.9 miliwn o sesiynau gwyllo arlein (i holl raglenni a chynnwys S4C ar S4C Clic, BBC iPlayer a chyfryngau cymdeithasol)  
**Online viewing continues to grow considerably - 46.9 million online viewing sessions (for all S4C programmes and content on S4C Clic, BBC iPlayer and social media)**

**1.3m**

1.3 miliwn o wylwyr wedi gwyllo rhaglenni S4C o ddiwyddiadau'r haf ar deledu ar draws y DU.  
**1.3 million viewers watched S4C's programmes from summer events on television across the UK**


**£**

Mae pob £1 yn werth £2.09 i economi Cymru. Mae gwaith S4C yn cael effaith economaidd sylweddol ar economi Cymru. Mae bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi gan S4C yn yr economi yn mwy na dyblu yn ei werth  
**Every £1 is worth £2.09 to the Welsh economy - S4C's work has a significant economic impact on the Welsh economy. Every £1 invested by S4C in the economy more than doubles in value**



**5.7m**

5.7 miliwn o sesiynau gwyllo i eitemau byrion Heno a Prynawn Da  
**5.7 million viewing sessions to short form items from Heno and Prynawn Da**





**Roedd llwyddiant trawiadol Geraint Thomas yn ennill y Tour de France yn felys a chofiadwy. Dyma dalent a dyfalbarhâd Cymreig yn cael eu dathlu ar lwyfan rhyngwladol – uchelgais y mae S4C ei hun yn ei rannu - ac roedd yn braf medru darlledu'r cyfan trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.**

**Geraint Thomas' striking success in winning the Tour de France was sweet and memorable. Here we saw Welsh talent and persistence celebrated on an international stage – an ambition shared by S4C for itself - and we were proud to be able to cover the whole event through the medium of Welsh.**

Eto i gyd, mae'n debyg mai symud ein pencadlys i Ganolfan S4C yr Egin, Caerfyrddin oedd prif ddigwyddiad y flwyddyn i S4C fel corff.

Cwblhawyd yr adeilad a'r symudiad ar amser ac ar gyllideb, sy'n deyrnged aruthrol i bawb fu'n ymwneud â'r gwaith. Ni chafwyd unrhyw doriad i'r gwasanaeth ac mae'r adeilad newydd yn gyflym iawn wedi ennill ei le lle dymunol i weithio ynddo. Mae'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer digwyddiadau, cynhyrchu rhaglenni sydd angen cynulleidfa, ac fel man cyfleus i ystod eang o'r gymdeithas leol gyfarfod a sgwrsio. Roedd hi'n braf gweld yr enwebiad diweddar ar restr fer adeiladau newydd mwyaf trawiadol Cymru.

Ar yr un pryd, roedd hi'n galed ffarwelio â nifer sylweddol o aelodau staff sydd wedi ymgyrtrefu yng Nghaerdydd ac a benderfynodd na fyddai'n ymarferol iddyn nhw adleoli i Gaerfyrddin. Rydym yn deall fod sefyllfa pob unigolyn a phob teulu'n wahanol ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad eithriadol y mae pob aelod o staff Caerdydd wedi'i wneud i lwyddiant S4C dros y blynyddoedd. Rydym yn dymuno'n dda iddynt oll gyda'u gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae ymadawiadau wrth gwrs yn agor drysau i eraill, a dyna sydd wedi digwydd yn Yr Egin. Mae hi wedi bod yn gyfnod o hysbysebu, cyfweld a phenodi prysur iawn ac mae'n dda medru datgan fod mwyafrif helaeth y swyddi a ddaeth yn wag wedi'u llenwi. Mae'r cyfle sydd nawr ar gael i fyw a magu teulu yn y gorllewin, tra'n gweithio ym mhencadlys corff cenedlaethol amlwg, yn rhywbeth sy'n cael ei groesawu'n fawr. Mae gweddill yr adeilad bellach bron yn llawn. Mae'r egin yn dechrau blaguro'n barod.

Ym mis Chwefror, cafwyd datblygiad pellgyrhaeddol arall yn hanes y corff wrth i 34 o swyddi technegol symud o gyflogaeth S4C i'r BBC, wrth baratoi ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu'n gwasanaethau technegol, dan gytundeb, i'r BBC. Disgwylir bellach i'r symudiad yma ddigwydd yn gynnar yn 2020 ac mae'r Bwrdd wedi derbyn adroddiadau cyson ynglŷn â

However, it is likely that the main event of the year for S4C as an organisation was moving our headquarters to Canolfan S4C yr Egin, Carmarthen.

The building and the move were completed on time and on budget, which was an outstanding tribute to the work of all those involved. The service suffered no interruption and the new building has very swiftly won a name for itself as an attractive place to work. It is used regularly for events, for producing programmes which require audiences, and as a convenient meeting place where a broad cross-section of the local community can meet and talk. It was gratifying to see its recent nomination on the shortlist of Wales' most striking new buildings.

At the same time, it was hard for us to say goodbye to a substantial number of those staff members who have made their homes in Cardiff and who decided that it would not be practical for them to relocate to Carmarthen. We understand that the situation of every individual and every family varies and we appreciate the exceptional contribution that every member of our staff in Cardiff has made to S4C's success over the years. We wish them all well with their future careers.

Departures of course open doors for others, and that is what has happened at Yr Egin. It has been a very busy period for advertising, interviewing and appointing, and it is good to be able to report that the great majority of positions which became vacant have been filled. The opportunity which now exists to live and raise one's family in West Wales while working at the headquarters of a prominent national organisation, is something which is warmly welcomed. The rest of the building also is by now nearly fully occupied. The shoots are already bearing fruit\*.

In February, there was another far-reaching development in the history of the organisation as 34 technical posts transferred from S4C's employment to that of the BBC, in preparation for the transfer of responsibility for the delivery of our technical services,

\*"egin" is the Welsh word for "bud" or "shoot"

“

Mae Hansh wedi cydio yn nychymyg cynulleidfau iau, gyda'r defnydd ohono, a'r ymateb iddo, yn cynyddu'n drawiadol. Hansh has caught the imagination of a younger audience, and its take-up, and the response to it, have seen a striking increase.

chynnydd y prosiect. Diddorol nodi mai dim ond 100 o bobl sydd bellach ar staff S4C ei hun, yn gyfrifol am gynllunio, gweinyddu a marchnata gwasanaeth sy'n darlledu dros 6,500 o oriau o gynnwys bob blwyddyn.

#### Perfformiad y Gwasanaeth

Fel y rhan fwyaf o ddarlledwyr cyhoeddus eraill, mae S4C wedi gweld gostyngiad yng nghyrrhaeddiad y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Yn achos S4C, mae'r gostyngiad sylweddol o 14% yng Nghymru yn deillio o nifer o ffactorau ac wedi blwyddyn o gynnydd trawiadol yn 2017-18, rhaid cyfaddef ei fod yn siomedig. Wedi dweud hynny, roedd y gostyngiad mewn gwyllo wythnosol ar draws y D.U. yn ddim ond 4%, digon tebyg i sianeli cyhoeddus eraill ac yn dangos cynnydd sylweddol o'i gymharu a'r flwyddyn 2016-17. Llwyddiant rhaglenni plant oedd yn bennaf gyfrifol am y gwahaniaeth.

Gwelwyd cynnydd yn y defnydd mae gwylwyr yn ei wneud o lwyfannau digidol er mwyn gwyllo cynnwys, gyda dros 8.6

miliwn o sesiynau gwyllo ar S4C Clic a BBC iPlayer, a chynnydd mawr yn lefel y gwyllo trwy gyfryngau cymdeithasol fel Facebook. Lawnsiwyd boccs sets ar S4C Clic am y tro cyntaf gydag effaith drawiadol, yn arbennig ar gyfer gwyllo drama.

Gwelsom pa mor allweddol yw sicrhau hawliau i chwaraeon o'r safon uchaf er mwyn cynnal cyrrhaeddiad. Roedd tipyn llai o'r rhain ar gael i ni eleni. Mae'r gystadleuaeth ar sianeli eraill ac ar lwyfannau newydd, megis Netflix, yn ffyrnigo, gan gynnig mwy a mwy o ddewis i wylwyr. Mae tuedd gwylwyr iau i droi at gyfryngau eraill, a throi i ffwrdd o'r teledu, yn bryder i S4C fel i ddarlledwyr cyhoeddus eraill ac efallai, ym misoedd cynta'r flwyddyn, fod ein hymdrechion i apelio at gynulleidfau iau, trwy arbrofi gyda syniadau a fformatau newydd, heb lwyddo'n ddigonol, ac ar yr un pryd wedi dieithrio carfan o wylwyr mwy traddodiadol. Ar adegau, gyda'r gyllideb dan bwysau ariannol, roedd yna gyfnodau sylweddol pan roedd hi'n ymddangos bod yna lawer o ail-ddangos o fewn amserlen yr oriau brig a'n teimlad yw fod hyn wedi cyfrannu at y dieithrio yma.

Y wers amlwg a ddysgwyd yw bod yn rhaid ceisio ennill y gynulleidfau iau heb golli gafael ar y gwylwyr craidd. Dyma her anferthol i unrhyw ddarlledwr o ystyried y cyfyngiadau ariannol a'r gystadleuaeth gynyddol.

Wedi sylwi'n fanwl ar berfformiad y gwasanaeth dros fisoedd cyntaf y flwyddyn, llwyddwyd i gymryd camau i arafu ac atal y gostyngiad, i'r graddau fod yr arwyddion o'r Nadolig ymlaen am gynnal a hyd yn oed gynyddu cynulleidfau, yn galonogol. Gobeithiwn weld y duedd yma'n parhau ar hyd y flwyddyn gyfredol.

Cafwyd lle hefyd i ddatllu nifer sylweddol o lwyddiannau trawiadol. Unwaith eto, cafwyd cyfresi drama cofiadwy. Mae'r pwyslais ar ddatblygu enw da rhyngwladol S4C am ddramau cyfoes yn parhau. Ar ôl i Un Bore Mercher ddenu cynulleidfau dda iawn y llynedd, aeth y fersiwn Saesneg Keeping Faith ymlaen i dorri record ar lwyfannau digidol y BBC. Mae'r llwyddiant trawsffiniol yma o fudd mawr i broffil Cymru ac i'r diwydiant teledu Cymreig ar ôl blynyddoedd lle bu presenoldeb Cymreig mewn dramau rhwydwaith yn beth digon prin. Ond yr un mor glodwiw eleni oedd llwyddiant creadigol cyfresi cwbl Gymraeg a welodd olau dydd, megis 35 Awr ac Enid a Lucy. Tra'n datllu'r llwyddiant trawiadol ar y rhwydwaith, mae'n dda hefyd medru sicrhau fod awduron sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg ac yn dehongli bywyd Cymru a'i chymunedau

under contract, to the BBC. It is expected now that this move will take place early in 2020 and the Board has received regular reports regarding the progress of the project. Interestingly, there are now just 100 people directly employed by S4C itself and these are responsible for planning, administering and marketing a service that broadcasts over 6,500 hours of content every year.

#### Service performance

Like most other public service broadcasters, S4C has seen a reduction in the reach of its service during the year. In the case of S4C, the substantial 14% reduction in Wales was due to a number of factors and after a year of impressive progress in 2017-18, it must be admitted that this was disappointing. That said, the reduction in our weekly viewing across the UK was only 4%, similar to that of other public service channels and representing a substantial increase over 2016-17. The high level of viewing of children's programmes was mainly responsible for the difference.

An increase was seen in the use made by viewers of digital platforms for viewing content, with more than 8.6m viewing sessions on S4C Clic and BBC iPlayer, and a large increase in the level of viewing through social media platforms such as Facebook. Box sets were launched on Clic for the first time with striking effect, particularly for viewing of drama.

We have seen how crucial it is to secure rights to sport of the highest standard in order to sustain reach. Considerably fewer of these rights were available to us this year. Competition on other channels and on new platforms, such as Netflix, has become fiercer, offering viewers more and more choice. The tendency of younger viewers to turn to other media, and away from television is a concern for S4C as for other public broadcasters. Perhaps also, in the early months of the year, our efforts to appeal to a younger audience, by experimenting with new ideas and formats, did not succeed sufficiently and at the same time alienated the more traditional part of our audience. At times, with the budget under financial pressure, there were periods when it seemed that there were too many repeats within the peak time schedule and our feeling is that this contributed to this alienation.

The obvious lesson to be learned is that we must try and win a younger audience without losing our core viewers. This is a huge challenge for any broadcaster, given the financial constraints and the increase in competition.

Having noted in detail the performance of the service over the first few months of the year, steps were taken to slow and halt the decline, to the extent that from Christmas onwards, there were encouraging indications of audience retention and even growth. We hope to see this trend continuing throughout the current year.

There were also opportunities to celebrate a significant number of impressive achievements. Once again, memorable drama series were shown. The emphasis on developing S4C's international reputation for contemporary drama continues. After Un Bore Mercher attracted a significant audience last year, the English version Keeping Faith went on to break records on the BBC's digital platforms. This cross-border success is of great benefit to the profile of Wales and to the whole Welsh television industry after years when a Welsh presence in network drama was rare. But equally laudable has been the creative success of this year's solely Welsh language series, such as 35 Awr and Enid a Lucy. Whilst celebrating the impressive success on the networks, it is also important to ensure that authors who write in Welsh and interpret the life of Wales and its

“

Rhaid ceisio ennill y gynulleidfau iau heb golli gafael ar y gwylwyr craidd. We must try and win a younger audience without losing our core viewers.

yn benodol trwy gyfrwng y Gymraeg, yn parhau i gael llwyfan ar S4C i wireddu eu talent.

Llwyddiant mawr arall yn ystod y flwyddyn oedd gwasanaeth digidol newydd S4C ar gyfer pobl ifanc, Hansh. Gydag adnoddau cyfyngedig, mae'r llwyfan yma ar gyfer math newydd o gynnwys - yn aml iawn yn gynnwys beiddgar sy'n gwthio ffiniau'r hyn fyddai'n dderbyniol ar deledu - wedi cydio yn nychymyg cynulleidfau iau, gyda'r defnydd ohono, a'r ymateb iddo, yn cynyddu'n drawiadol. Roedd ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr iau wedi croesawu'r arlyw ac yn arbennig yr hiwmor sy'n cael ei gyflwyno, yn gynnes iawn.

#### Gweithredu'r Adolygiad

Cymerwyd camau cyflym i weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 ac a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. Y mwyaf trawiadol o'r rhain yw'r newid i strwythur llywodraethiant S4C

o'r drefn o gael bwrdd o aelodau anweithredol yn unig, sydd wedi ei alw'n Awdurdod S4C ers sefydlu'r sianel, i system Bwrdd Unedol, ac hefyd i ddiweddarau'r cylch gorchwyl ar gyfer yr oes ddigidol.

Mae'n rhaid i'r newidiadau yma gael eu gweithredu trwy ddeddfwriaeth ac mae trafodaethau gyda'r Adran Ddiwylliant ynglŷn â natur a geiriad y fath ddeddfwriaeth yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Y gobaihu yw gweld cyflawni'r ddeddfwriaeth yma yn 2020. Yn y cyfamser, mae strwythur gyfreithiol S4C yn parhau, gydag 'Awdurdod S4C' yn gyfrifol am reoli S4C, ond yn gweithredu fel Bwrdd unedol cysgodol tra'n disgwyl y ddeddfwriaeth. Mae hynny'n golygu bod tri aelod o'r staff gweithredol, Owen Evans, Amanda Rees ac Elin Morris, oedd eisoes yn mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod, bellach wedi eu penodi'n aelodau llawn o'r Bwrdd unedol cysgodol ochr yn ochr â'r chwe aelod anweithredol. Bydd yr aelodau anweithredol, yn unol â'u tymor, yn parhau maes o law i fod yn aelodau o'r Bwrdd unedol ffurfiol. I bob pwrpas, mae'r cylch gorchwyl newydd eisoes yn weithredol, gyda sêl bendith y Llywodraeth.

Mae penderfyniad y Llywodraeth i ymateb i argymhellion yr Adolygiad trwy gynnal lefel y cyllid a ddaw'n uniongyrchol o'r Llywodraeth yn ystod 2018-219 a 2019-20, i'w groesawu. Byddwn yn gweithio'n galed i geisio sicrhau parhad yr egwyddor honno am y ddwy flynedd sy'n weddill o'r trefniant ariannol presennol, sef 2020-22. Er y byddem yn gorfod dygymod ag effeithiau chwyddiant, byddai hynny'n golygu parhad o'r sefydlogrwydd ariannol presennol trwy'r cyfnod anochel o drafod y setliad ariannol a fydd yn weithredol am y cyfnod o 2022 ymlaen. Byddai unrhyw ganlyniad arall yn ergyd fawr i'n gallu i gynnig gwasanaeth cystadleuol, fel sydd ei angen. Byddwn yn parhau i drafod yn adeiladol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon wrtho iddo ystyried ariannu S4C ar gyfer y dyfodol yn unol â'i ddyletswydd statudol i sicrhau ariannu digonol i ganiatau i S4C ddiwallu ei chylch gorchwyl mewn dull effeithiol.

Bydd hynny yn cynnwys ystyriaeth o elfen newydd o ansicrwydd ariannol sy'n achosi pryder i ni. Mae Cyllid a Thollau ei Mawrhydi wedi adolygu statws trethiannol S4C ac maent o'r farn y dylid cyfyngu ar allu S4C i ad-hawlio TAW. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o arwyddocâd y mater yma ac mae wedi dweud wrthym ei fod am ddeddfu er mwyn osgoi canlyniadau ariannol anfwriadol y fath benderfyniad. Tra'n disgwyl deddfwriaeth mae am sicrhau na fyddwn ar ein colled yn ystod y

communities specifically through the medium of Welsh, continue to have a platform on S4C to realise their talent.

Another great success during the year was S4C's new digital service for young people, Hansh. With limited resources, this platform for all types of content – often daring material which pushes the boundaries of what would be acceptable on television – has caught the imagination of a younger audience, and its take-up, and the response to it, have seen a striking increase. Our research showed that younger viewers welcomed this provision and, in particular, the humour involved, very warmly.

#### Implementing the Review

Swift steps were taken to implement the recommendations made in the Independent Review of S4C published in March 2018 and accepted by the Government. The most striking of these is the change to S4C's governance structure from a system based on a Board of non-executive members only, which has been called "the S4C Authority" since the channel was established, to a unitary Board system, as well as changes which will modernise the organisation's remit to better suit the digital age.

These changes need to be implemented by legislation and discussions with the DCMS regarding the nature and the wording of such legislation are taking place at the moment. The hope is that it will be passed during 2020. In the meantime, S4C's existing legal structure continues, with 'the S4C Authority' responsible for controlling S4C, but operating as a shadow unitary Board pending the legislation. This means that three members of the Executive, Owen Evans, Amanda Rees and Elin Morris, who already attended all Authority meetings, have now been appointed full members of the shadow unitary Board alongside the six non-executive members. The non-executive members will, according to their terms of office, continue in due course as members of the formal unitary Board. The new remit is, to all intents and purposes, already being delivered, with the Government's approval.

The Government's decision to respond to the Review's recommendations by sustaining the level of funding which comes directly from Government during 2018-19 and 2019-20, is to be welcomed. We will be working diligently to seek to ensure that that principle continues for the two years which follow on from the current financial arrangement, namely 2020-2022. Although we would need to cope with the effects of inflation, that would mean a continuation of the present financial stability through the inevitable period of discussion regarding the financial settlement which will apply for the period from 2022 onwards. Any other result would be a substantial blow to our ability to offer the competitive service which is needed. We will continue to engage constructively with the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport as he considers S4C's future funding in accordance with his statutory responsibility to ensure that it is sufficient to enable S4C to fulfil its remit effectively.

This will include consideration of a new element of funding uncertainty which causes us some concern. HMRC have reviewed S4C's tax status and are of the view that S4C's ability to reclaim VAT should be limited. The Government is aware of the significance of this issue and has told us that it wishes to legislate in order to avoid the unintended financial consequences of such a decision. Pending legislation it has offered cover during the current year. Given the assurances received regarding the importance of stability of funding for S4C, resolution of this issue will be a high priority.

flwyddyn gyfredol. Yng ngoleuni'r sicrwydd blaenorol a dderbyniwyd ynglŷn â phwysigrwydd sefydlogrwydd ariannol ar gyfer S4C, bydd dod i ddatrysiaid ynglŷn â'r mater hwn yn flaenoriaeth uchel.

Argymhellodd yr Adolygiad bod y cyfrifoldeb am archwilio cyfrifon S4C yn cael ei drosglwyddo i'r Swyddfa Gyfrifo Genedlaethol (NAO). Yn dilyn trafodaethau adeiladol daethpwyd i gytundeb i weithredu'r newid yma o 2019-2020, tra eto'n disgwyl deddfwriaeth. Mae hyn yn golygu ffarwelio â chwmini Grant Thornton sydd wedi rhoi gwasanaeth trwyadl a chynghor doeth i S4C ers blynyddoedd lawer.

Roedd yr Adolygiad hefyd yn awyddus i weld S4C yn cynnal partneriaethau mwy effeithiol ac yn gweithio'n agosach i gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Mae'n dda nodi bod camau breision wedi cael eu cymryd i'r cyfeiriad yma gan ganolbwyntio ar adnabod yn fwy manwl y cyfraniad y gall S4C ei wneud i gefnogi addysg Gymraeg yn yr ysgolion, ac i gefnogi'r rheini sy'n dysgu'r iaith, a'r rheini sydd am weld eu plant yn cael gafael arni yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae'r partneriaethau ffurfiol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Mudiad Meithrin, yn ogystal â'r cytundeb mewn egwyddor gydag Adran Addysg Llywodraeth Cymru, i gyd yn rhoi fframwaith i gefnogi ac arsylwi ar gynnydd yn y meysydd yma. Mae'r cyfle i fynd â'r Gymraeg i gymunedau a chartrefi newydd wrth i sefydliadau addysg, y cyfryngau a chyrrff eraill megis yr Eisteddfod a'r Urdd, weithio gyda'i gilydd yn un gwirioneddol gynhyrfus.

#### Gair o ddiolch

Dyma fydd fy adroddiad olaf i fel Cadeirydd ac fe hoffwn ddiolch am eu cefnogaeth i holl aelodau'r Bwrdd a'r Ysgrifennydd, Phil Williams, sydd wedi bod yn gwbl ymroddedig i amcanion unigryw S4C trwy nifer o flynyddoedd heriol. Diolch arbennig hefyd i dri aelod ddaeth i derfyn eu tymor yn ystod y flwyddyn, sef John Davies, Guto Harri ac Elan Closs Stephens. Rhaid nodi'n arbennig gyfraniad allweddol Elan, tra'n gwisgo sawl het wahanol, wrth i ni geisio sicrhau perthynas adeiladol a phriodol rhwng S4C a'r BBC trwy gyfnod o newid mawr i'r ddau gorff. Rwyf hefyd wedi gwerthfawrogi'r berthynas dda a chefnogol gyda Chadeiryddion ac uwch-swyddogion y BBC ar hyd y cyfnod hwn.

Mae ymroddiad ac arddeliad Owen Evans a holl staff S4C - yn enwedig staff swyddfa Caernarfon sydd wedi 'ngweld i fwyaf - wedi bod yn rhan bwysig o'r rheswm pam mae hi wedi bod yn ffrainc ac yn bleser dal yr awenau am yr wyth mlynedd diwethaf. Mae cefnogaeth gyson gweinidogion a gwleidyddion, o bob plaid, ac o fewn dwy senedd, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diweddar yma, wedi cynhesu'r galon. Yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i'r cwmnïau a'r sefydliadau cynhyrchu a'r unigolion talentog sy'n gweithio iddynt, o flaen a thu ôl i'r sgrin, am sicrhau rhaglenni sy'n cystadlu gyda'r goreuon, yn rhoi llwyfan cyfoes cyhoeddus teilwng i'r iaith Gymraeg, ac yn cyfiawnhau'n llawn yr ymdrechion a'r penderfyniadau a arweiniodd at sefydlu'r sianel yn y lle cyntaf, yn ôl yn 1982.

Mae S4C yn rhan ganolog o'r gwaith o sicrhau dyfodol i hen hen iaith, sydd yn iaith gyntaf i leiafrif, ond yn destun balchder i genedl gyfan. Cyn bo hir, bydd yn dathlu'r deugain. Byddaf yn edrych ymlaen at godi gwydryn i'm olynnydd a'i d/thîm, gan ddyuno'n dda iawn iddynt gyda'r gwaith o fynd â ni ymlaen yr un mor hyderus at y deugain nesaf.

The Review recommended that responsibility for auditing S4C's accounts should be transferred to the National Audit Office. Following constructive discussions, an agreement has been reached to implement this change from 2019-20, again while awaiting legislation. This means saying "goodbye" to Grant Thornton who have given S4C effective service and wise advice over many years.

The Review was also keen to see S4C sustaining more effective partnerships and working closer to support the aims of the Welsh Government in relation to the Welsh language. It is good to note that substantial steps have been taken in this direction focusing on identifying in greater detail the contribution that S4C can make to supporting Welsh language education in schools and to providing support to those who are learning the language and to parents who want to see their children acquiring it during the early years. Our formal partnerships with The National Centre for Learning Welsh and the Mudiad Meithrin (national provider of Welsh-medium early years care and education), in addition to the in-principle agreement reached with the Welsh Government's Education Department, all provide a framework to support and monitor progress in these areas. The opportunity to take the Welsh language to new communities and homes through educational institutions, the media and other bodies such as the Eisteddfod and the Urdd, working together is genuinely exciting.

#### A word of thanks

This will be my last report as Chairman and I would like to thank all the members of the Board and its Secretary, Phil Williams, for their dedicated support to S4C's unique objectives during a number of challenging years. Particular thanks also go to three members who came to the end of their terms during the year, namely John Davies, Guto Harri and Elan Closs Stephens. I must make special note of Elan's key contribution, while wearing a number of different hats, as we sought to ensure an appropriate and constructive relationship between S4C and the BBC through a period of considerable change for both bodies. I have also appreciated the good and supportive relationship I have enjoyed with the Chairs and senior executives at the BBC throughout this period.

The dedication and enthusiasm of Owen Evans and the whole S4C staff - and in particular those at the Caernarfon office who have seen me the most - have been an important part of the reason why it has been a pleasure as well as an honour for me to hold the reins during the last eight years. The consistent support of ministers and politicians, from every party, and within two Parliaments/Assemblies, particularly during these recent years, has been heart-warming. More than anything, I would like to thank the production companies and organisations, and the talented individuals who work for them in front of and behind the screen, for giving us programmes which compete with the best, which provide a fitting modern public arena for the Welsh language, and which fully justify the efforts and wise decisions which led to the establishment of the Channel in the first place, back in 1982.

S4C is a central part of the means of ensuring a future for an old old language, which is the first language of a minority, but a source of pride for an entire nation. Before long, it will be celebrating its 40th birthday. I will be looking forward to raising a glass to my successor and his/her team and to wishing them the very best with their work in taking us forward equally confidently to the next 40 years.







**Roedd y flwyddyn ddiwethaf yn un allweddol i ddyfodol y sianel. Roedd adolygiad o'r sianel ac ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnig sefydlogrwydd ariannol am ddwy flynedd ond gyda sawl her i'w gyflawni yn y cyfamser. Yna, wrth gwrs, roedd symud ein pencadlys o Gaerdydd i Gaerfyrddin.**

**Last year was a very significant one for the future of the channel. A review of the Channel and the response from the Secretary of State offered financial stability for two years, but with several challenges to be met. Then came the moving of our headquarters from Cardiff to Carmarthen.**

Ond efallai'r un mwyaf arwyddocaol i'r dyfodol oedd parhau ein harbros digidol ac ein comisiynu ar y brif sianel er mwyn creu strategaeth hir dymor fydd yn troi S4C o fod yn ddarlledwr lliniol i fod yn gyflenwr aml-blattform. Wrth neud hyn rydym yn ymateb i batrymau gwyllo sy'n newid o'n cwmpas a hefyd yn meithrin partneriaethau newydd a chyffrous, gan sicrhau fod isadeiledd cryf gan y sianel i'r dyfodol.

Fel pob siwrne mae'r flwyddyn wedi bod yn gymysgedd o lwyddiannau a gwersi i'w dysgu wrth i ni gynllunio llwybr i'r dyfodol. Ar y brif sgrin fe welwyd yr her barhaol o gynnig tipyn o bopeth i bawb. Fel darlledwr cyhoeddus mae gennym rôl glir i gynnig rhaglenni o safon i amryw o gynulleidfaoedd gwahanol. Er doedd na ddim cymaint o chwaraeon proffil uchel (e.e. yn 2017/18 roedd y Llewod ar daith ac ymgyrch y tîm pêl-droed i gyrraedd Cwpan y Byd) fe barhaodd S4C i ddarlledu pêl-droed Uwch Gyngheir Cymru a rygbi'r PRO14 yn fyw o dan gytundebau newydd. Fe gynyddodd y nifer o gemau chwaraeon menywod wrth i ni weithredu ar ein hymrwymiad i gydraddoldeb, gan gynnwys gemau rygbi menywod y chwe gwlad. Fe wnaeth ein rhaglenni newyddion a materion cyfoes gynnig gwasanaeth pwysig ac fe gafwyd mwy o raglenni ffeithiol o fewn ein cainc "Drych".

Yn ogystal â dramâu a chyfresi sebon, fe welwyd arbrofi yn y maes adloniant a teg dweud fe lwyddodd rhai yn well na'i gilydd. Fe welon ni raglenni arbrofol newydd yn symud o'r llwyfan digidol i'r brif sgrin yn Bwyd Epic Chris. Yn ystod y flwyddyn hefyd fe ddathlwyd pen-blwydd CYW yn 10 oed. Mae ein gwasanaeth ar gyfer plant meithrin yn parhau'r un mor boblogaidd ag erioed.

Rhwng haf godidog, a llai o chwaraeon, fe welon ni gwmp yn ein cyrhaeddiad dros y flwyddyn er roedd hynny yn dilyn blwyddyn lwyddiannus tu hwnt yn 2017/18. Er hynny, ac er bod cyllid ein rhaglenni yn llai o lawer na'r gystadleuaeth, braf yw gweld fod S4C yn parhau i ddal ei thir gyda'r sianeli cyhoeddus eraill

But perhaps the most significant for the future was continuing our digital experimentation and our commissioning on the main channel in order to create a long-term strategy that will transform S4C from being a linear broadcaster into a multi-platform supplier. In doing so, we are responding to viewing patterns which are changing around us, and also developing new and exciting partnerships, ensuring that the channel has a strong infrastructure for the future.

As is the case with every journey, the year has been a mixture of successes and lessons to be learnt as we plan a route to the future. On the main screen we saw the continuing challenge of offering a little bit of everything for everyone. As a public broadcaster we have a clear role in offering programmes of high standard to a variety of different audiences. Although there were not as much high-profile sports (e.g. in 2017/18 the Lions were on tour and also the football team's campaign to reach the World Cup finals), S4C continued to broadcast Welsh Premier League Football and PRO14 rugby live under new contracts. The number of women's sports games increased as we strove to improve our equality, including women's rugby games in the six nations. Our news and current affairs programmes offered an important service and there were more factual programmes within our "Drych" strand.

As well as dramas and exciting soaps, we experimented in the area of entertainment. Some succeeded and some did not. We saw exciting new programmes such as Chwilio am Seren - Junior Eurovision and new talent moving from our digital platform to the main channel, namely Bwyd Epic Chris. Also, CYW's 10th birthday was celebrated during the year. Our service for nursery age children remains as popular as ever.

With a glorious summer and fewer sports, we saw a drop in our reach over the year, but that was following a very successful year in 2017/18. Despite this, and although our programme budget is much less than the competition, it is good to see that S4C is still standing its ground

“

**Fel darlledwr cyhoeddus mae gennym rol glir i gynnig rhaglenni o safon i amryw o gynulleidfaoedd gwahanol. As a public broadcaster we have a clear role in offering programmes of high standard to a variety of different audiences.**

diolch i arloesedd ac ymroddiad y sector yng Nghymru. Rwy'n falch o weld, wrth i ni ymladd i gadw ein cynulleidfa lliniol, bod ein gwasanaethau digidol wedi parhau i dyfu ac esblygu. Mae'r ffaith fod S4C wedi cynnal lefel cyrhaeddiad yn y gynulleidfa iau (16-34) ar yr un lefelau dros y flwyddyn, yn wahanol i gyfartaledd y 5 prif sianel darlledwr cyhoeddus arall yng Nghymru, yn arwyddocaol ac yn argeoli'n dda at y dyfodol.

Yn ddigidol, ac yn dilyn awgrymiadau adolygiad Eyrn Ogwen Williams, fe wnaethon ni gryfhau'r isadeiledd mewnol i wella ein chwaraewr S4C Clic ac i gynnig gwasanaethau newydd fel boccs sets a chynnwys bydd ond ar gael trwy Clic. Rydym eisoes wedi cyflwyno mewngofnodi gorfodol ar S4C Clic wrth i ni geisio gwella ein cynnig digidol i bersonoleiddio ein cynnwys arlein. Fe wnaeth Hansh esblygu i fod yn sianel ddigidol ar ben ei hun, yn cynnig adloniant, rhaglenni ffeithiol a darpariaeth newyddion (mewn partneriaeth gyda ITV Cymru) ac wrth gwrs ein drama ddigidol gyntaf "Merched Parchus". Ers lansiad Hansh, mae'r niferoedd gwyllo wedi tyfu o 40,000 y mis i dros 700,000, tyfiant o dros 1,750%.

Wrth i lai o wylwyr ddilyn gwasanaeth lliniol y darlledwyr cyhoeddus oll, mae'r gwasanaeth a'r cynnwys digidol yn tyfu yn ei bwysigrwydd, yn enwedig wrth i ni geisio denu'r siaradwyr Cymraeg ifanc, sef dyfodol yr iaith. Mae yna dim digidol newydd wedi ei greu o fewn S4C i wireddu ein cynlluniau ar gyfer S4C Clic ac i sicrhau mwy o ddilyniant a defnydd o'n cyfryngau cymdeithasol. Mae'n braf cael gweld ffrwyth y buddsoddiad wrth i ni weld cynnydd o 57% mewn dilynwyr Instagram, cyrraedd 50,000 o ddilynwyr ar Facebook, fideo 'Do the Dai' Sgorio yn cael dros 4m o sesiynau gwyllo ar Trydar a dros 50% mwy o amser gwyllo ar YouTube. Fe barhaodd gwyllo digidol arlein o'n rhaglenni i dyfu ar S4C Clic a BBC iPlayer.

Dros y flwyddyn yn ogystal ag arbrofi'n lliniol ac yn ddigidol rydym wedi bod wrthi yn cynllunio amserlen a rhaglenni newydd. Mi fydd amserlen newydd S4C, sydd wedi ystyried sylwadau gan wylwyr ar draws y wlad, yn cynnig patrwm mwy sefydlog gyda chanran uchel o raglenni sydd eisoes wedi llwyddo yn dychwelyd, gan gynnwys rhai o lwyddiannau'r flwyddyn. Er wrth gwrs mi fydd dal lle i ni arbrofi!

Mae ein gwaith gyda partneriaid fel Llywodraeth Cymru yn ogystal â Llywodraeth San Steffan ac amryw o fudiadau iaith wedi dwyn ffrwyth. Yn ogystal â chlybiau Cwtsh y Mudiad Meithrin rydym wedi ail gynllunio ein holl raglenni i ddysgwyr mewn partneriaeth agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed gyda Teledwyr Annibynnol Cymru wrth i ni geisio gwella lefel sgiliau'r diwydiant. Trwy'r holl newidiadau a fu, rwy'n gwerthfawrogi cymorth y sector teledu Cymraeg, sector gyda cryfderau clir ac arweinyddiaeth gadarn.

Mae bod yn gynhwysol ac adlewyrchu Cymru yn greiddiol i S4C. Fe lanswyd ymrwymiad i amrywiaeth ym mis Rhagfyr 2018. Yn ystod y flwyddyn, mae S4C wedi cydweithio gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys y Creative Diversity Network, Ffilm Cymru Wales ar gynllun Troed yn y Drws, gyda Theatr Genedlaethol Cymru ar y cynllun Awduron Theatr Newydd, a gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi amcanion a gweledigaeth yr ymrwymiad. Mae Hansh wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn adlewyrchu Cymru heddiw o ran cyfranwyr a chynnwys.

with the other public channels thanks to the innovation and commitment of the sector in Wales. I am glad to see that, as we battle to retain our linear audience, our digital services have continued to grow and evolve. The fact that S4C has retained the level of reach amongst the younger audience (16-34) at the same levels over the year, contrary to the average of the other 5 main PSB's in Wales is significant.

Digitally, and following the suggestions of Eyrn Ogwen Williams' review, we strengthened the internal infrastructure to improve our S4C Clic player and to offer new services such as box sets and content that will only be available through S4C Clic. We have already introduced mandatory log-on to Clic as we try to improve our digital offer to personalise our online content. Hansh developed to be a digital channel in its own right, offering entertainment, factual programmes and news provision (in partnership with ITV Wales) and of course our first digital drama "Merched Parchus". Since Hansh was launched, the viewing figures have grown from 40,000 per month to over 700,000, a growth of over 1,750%.

As fewer viewers follow the linear services of all public broadcasters, the digital service and content is growing in importance, especially as we consider attracting the young Welsh speakers, namely the future of the language. A new digital team has been created within S4C to realise our plans for S4C Clic and to ensure more use and following of our social media. It is good to see the results of the investment as we see an increase of 57% of followers on Instagram, reaching 50,000 followers on Facebook, the Sgorio video 'Do the Dai' getting over 4m viewing sessions on Twitter and over 50% more viewing time on YouTube. Digital, online viewing of our programmes continued to grow on S4C Clic and BBC iPlayer.

Over the year, as well as experimenting with both linear and digital, we have been planning a new schedule and programmes; the new S4C schedule, which has considered comments from viewers across the country, offers a more stable pattern and with a higher percentage of programmes that have already been a success returning, including some of this year's successes. But, of course, there will still be room for us to experiment!

Our work with partners such as the Welsh Government as well as the Westminster Government and a number of language organisations has borne fruit. As well as the Mudiad Meithrin's Cwtsh Clubs, we have redesigned all our programmes for learners in close partnership with the National Centre for Learning Welsh. We have also been working hard with TAC (The trade body for Welsh independent producers) in an effort to improve the level of skills in the industry. Through all the changes that have taken place, I appreciate the support of the Welsh television sector, a sector that has clear strengths and strong leadership.

Being inclusive and reflecting Wales is at the core of S4C. A commitment to diversity was launched in December 2018. During the year, S4C has collaborated with a number of partners including the Creative Diversity Network, Ffilm Cymru Wales on the Troed yn y Drws (Foot in the Door) scheme, with Theatr Genedlaethol Cymru on the New Theatre Authors scheme, and with the Welsh Government to support the objectives and vision of the commitment. Hansh has been exceptionally successful in reflecting Wales today in terms of contributors and content.

“

**Mae'r ffaith fod S4C wedi cynnal lefel cyrhaeddiad yn y gynulleidfa iau (16-34) ar yr un lefelau dros y flwyddyn, yn wahanol i gyfartaledd y 5 prif sianel darlledwr cyhoeddus arall yng Nghymru, yn arwyddocaol ac yn argeoli'n dda at y dyfodol. The fact that S4C has retained the level of reach amongst the younger audience (16-34) at the same levels over the year, contrary to the average of the other 5 main PSB's in Wales is significant.**

Yn gorfforaethol gwelwyd symud pencadlys S4C o Gaerdydd i Ganolfan S4C Yr Egin yng Nghaerdydd yn ogystal ag arwyddo les hir newydd ar ein swyddfa yng Nghaerdydd. Er i ni golli cryn dipyn o'n cyd-weithwyr profiadol yn y symudiad i Gaerdydd, mae'r swyddfa newydd yn llawn bwrlwm ac wedi manteisio ar dalent a sgiliau'r ardal, gyda mwyafrif o'r gweithlu nawr yn byw yn lleol. Hoffwn ddiolch i'r rhai a'n gadawodd am eu hymroddiad i'r sianel ar draws y blynyddoedd ond hefyd diolch i'n cyd-weithwyr newydd a'n partneriaid yn Sir Gâr, gan gynnwys Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a'r Awdurdod Lleol, am eu cymorth diffuant. Yr her nesa fydd wrth i S4C drosglwyddo ei wasanaeth ddarlledu technegol i'r BBC a chydeileu yn adeiladu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd yn gynnar yn 2020.

Mae adeiladu ar gyfer y dyfodol a bodloni'r heriau a osodwyd gan Adolygiad Eyrn Ogwen wedi golygu ail-flaenoriaethu cyllid yn sylweddol. Bu'n rhaid i S4C, fel pob darlledwr, wynebu'r her o ddarparu gwasanaeth deniadol o ansawdd uchel ar y sgrin tra'n tyfu ei phresenoldeb digidol. Rydym wedi gwneud hynny drwy ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyfundrefn ariannu sefydlog. Eleni byddwn yn gweld newidiadau yn ein trefn drethu ac rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn yr Adran dros Ddigidol, Ddiwylliant, y

Cyfryngau a Chwaraeon i sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar ein gwasanaethau.

Mae S4C mewn trafodaethau eisoes am weddill argymhellion yr Adolygiad o S4C. Mae yna waith manwl yn parhau ar lunio deddfwriaeth i newid cylch gwaith S4C i ddarlledu yn ddigidol ac ar draws y DU, ble welir twf cryf yn y nifer o bobl sy'n gwyllo'r sianel. Mae ein cynnydd a'n heffaith ar ddyfodol ac yn wir dwf yr iaith Gymraeg, fel erioed, yn dibynnu ar seiliau ariannol cadarn ac rydym yn edrych i Lywodraeth y DU i barhau â'u cefnogaeth.

Yn olaf hoffwn ddiolch i'n cadeirydd Huw Jones wrth iddo gamu lawr yn y misoedd nesaf. Mi ddaeth Huw i'w swydd mewn amser anodd i'r sianel ac mae ei arweinyddiaeth a'i ddoethineb wedi rhoi conglaen cadarn i ni gyd. Trwy ei waith caled ac eraill o'i gwmpas, rwy'n credu ei fod yn gadael S4C yn gryfach i'r dyfodol.

Corporately, we saw S4C's headquarters moving from Cardiff to Canolfan S4C Yr Egin in Carmarthen as well as the signing of a new long lease on our office in Caerdydd. Although we lost a considerable number of our experienced colleagues as a result of the move to Carmarthen, the new office is buzzing and has taken advantage of the local talent and skills, with a majority of the workforce now living locally. I would like to thank those who have left us for their commitment to the channel over the years, but also to thank our new colleagues and partners in Carmarthenshire, including the University of Wales Trinity St David and the Local Authority, for their sincere support. The next challenge will be as S4C transfers its technical broadcast service to the BBC and co-locates in the new BBC building at Central Square, Cardiff, early in 2020.

Building for the future and meeting the challenges laid by the Eyrn Ogwen Review has meant significant re-prioritisation of funding. S4C, like all broadcasters, has had to meet the challenge of providing a high quality and engaging service on screen whilst growing its digital presence. We have done so supported by the UK Government's commitment to a stable funding regime. This year will see changes in our taxation regime and we are working closely with our partners in DCMS to ensure that this doesn't impact on our services.

S4C is already in discussions regarding the remainder of the recommendations included in the Review of S4C. Detailed work continues on drawing up legislation to change S4C's remit to broadcast digitally across the UK, where strong growth is seen in the number of people watching our channel. Our progress and our impact on the sustainability and indeed growth of the Welsh language, as ever, depends on a firm financial platform and we are looking to the UK Government to maintain their support.

Finally, I would like to thank our chairman, Huw Jones, as he steps down in the coming months. Huw undertook the role at a difficult time for the channel and his leadership and wisdom have provided a strong cornerstone for us all. Through his hard work, and that of others around him, I believe that he leaves S4C in a stronger position for the future.

# Sut berfformiodd S4C yn 2018/2019

## How S4C performed in 2018/2019

Mae sicrhau fod gwasanaethau iaith Gymraeg S4C yn ymateb i ddisgwyliadau'r gynulleidfa, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n rheolaidd gan yr ystod ehangaf o bobl yn greiddiol i waith S4C.

Ensuring that S4C's Welsh language services respond to the audience's expectations, and are valued and regularly used by the widest audience is key to S4C's mission.

### Sut mae S4C yn asesu perfformiad y gwasanaeth? How does S4C assess the performance of the service?

Mae gan Fwrdd S4C ddyletswydd i sicrhau fod gwasanaethau S4C yn ymateb i anghenion ein cynulleidfa. Mae'r Bwrdd yn asesu perfformiad gwasanaethau S4C yn gyson, a chyflwynir isod asesiad perfformiad S4C yn erbyn fframwaith mesuryddion perfformiad a Blaenoriaethau Strategol S4C ar gyfer y cyfnod Ebrill 2018 i Fawrth 2019.

The S4C Board has a duty to ensure that S4C's services respond to the needs of our audience. The Board regularly assesses the performance of S4C's services. The performance assessment presented below is based on the performance measurement framework and S4C's Strategic Priorities for the period April 2018 to March 2019.

**Rhoddir arweiniad i weithgareddau S4C gan bedair blaenoriaeth strategol sydd wedi eu datblygu er mwyn rhoi cyfeiriad i waith S4C a sicrhau fod holl wasanaethau S4C yn ymateb i anghenion y gynulleidfa:**

**S4C's activities are guided by four strategic priorities that have been developed to provide direction to S4C's work and to ensure that S4C's services respond to the needs of the audience:**

1	2	3	4
<p><b>Darparu gwasanaeth poblogaidd o safon uchel, ar amrywiaeth o lwyfannau cyfoes, gan sicrhau fod y cynnwys ar gael i'w dderbyn a'i ddefnyddio unrhyw amser, unrhyw le.</b> Provide a high quality and popular service across a range of contemporary platforms, ensuring that the content can be accessed and viewed at anytime and anywhere.</p>	<p><b>Dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa, ei gofynion a'i barn am y gwasanaeth, a sicrhau bod hyn yn greiddiol i waith S4C.</b> Strengthen our understanding of the audience, its requirements and its response to the S4C service and ensure that this is central to S4C's operation.</p>	<p><b>Sicrhau perthynas effeithiol a chreadigol gyda chyflenwyr a phartneriaid eraill.</b> Ensure an effective and creative relationship with suppliers and other partners.</p>	<p><b>Parhau i sicrhau gwerth am arian a manteisio ar gyfleoedd masnachol.</b> Continue to deliver value for money and make the most of commercial opportunities.</p>

Wrth asesu perfformiad gwasanaeth S4C, mae'n angenrheidiol i ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys ffigyrau gwyllo ar deledu ac arlein, gwerthfawrogiad ac ymateb y gynulleidfa i'r cynnwys a rhaglenni, yr effaith ehangach y mae S4C a'r gwasanaeth yn llwyddo i'w gael, a'r gwerth a chefnogaeth y mae S4C yn gallu ei ddarparu i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru.

In assessing the performance of the S4C service, it is necessary to consider a range of factors, including television and online viewing figures, appreciation and audience response to content and programmes, the wider impact created by S4C and its service, and the value and support that S4C can provide to partners and other stakeholders in Wales.

Mae Pwyllgor Cynnwys y Bwrdd yn ystyried adroddiadau ar gynnwys a pherfformiad y gwasanaeth rhaglenni yn rheolaidd, ac yn ystod 2018/19 rhoddwyd sylw arbennig i feysydd Newyddion a Materion Cyfoes, Rhaglenni Cylchgrawn, Chwaraeon, Dysgwyr, Gwledig, Crefydd, Adloniant a Phobl Ifanc, yn ogystal ag adolygiadau o berfformiad yr amserlen.

The Board's Content Committee regularly considers reports on the content and performance of the programme service, and during 2018/19 special attention was given to the News and Current Affairs, Magazine programmes, Sports, Learners, Rural, Religion, Entertainment and Young People genres as well as reviews of the schedule's performance.

Mae'r Pwyllgor, sy'n cyfarfod bob deufis, hefyd yn ystyried rhaglenni a chyfresi unigol sy'n ymddangos yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Cynnwys yn cael eu hystyried ymhellach yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd.

The Committee, which meets every two months, also considers individual programmes and series that are broadcast during the year. The Committee's reports are considered further in the Board's monthly meetings.

Mae'r trosolwg canlynol yn seiliedig ar y trafodaethau hyn.

The following overview is based on these discussions.

**Roedd 2018/19 yn flwyddyn o arbrofi a mentro er mwyn paratoi gwasanaeth S4C ar gyfer cyfnod newydd lle mae cynulleidfa oedd yn dethol drostyn nhw eu hunain pa gynnwys i'w wyllo ar amser ac ar lwyfan o'u dewis.**

**2018/19 was a year of experimentation and innovation in order to prepare S4C's service for a new era in which audiences select for themselves what content to watch, at a time and on a platform of their own choice.**



Gwelwyd cynnydd cyffredinol unwaith eto o ran nifer y sesiynau gwyllo arlein, gyda chyfanswm o 46.9 miliwn o sesiynau gwyllo i holl gynnwys S4C arlein, gan gynnwys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a S4C Clic a BBC iPlayer. **A general increase was seen once again in terms of the number of online viewing sessions, with a total of 46.9 million viewing sessions for all S4C content online, including on social media platforms and S4C Clic and BBC iPlayer.**

**Mae patrymau defnydd S4C, fel pob darlledwr arall yn esblygu, gyda gwylwyr yn mudo o'r sgrin deledu i wyllo cynnwys ar ystod o lwyfannau a dyfeisiau arlein. Mae hyn wedi arwain at leihad mewn rhai ffigyrau ar gyfer gwyllo teledu, ond cynnydd hefyd o ran gwyllo ar lwyfannau arlein a chyfryngau cymdeithasol.**

**Yn ogystal â ffigyrau gwyllo, mae sicrhau fod yr arlwy'n taro deuddeg gyda'r gynulleidfa, ac yn cael ei werthfawrogi, yn allweddol bwysig. Braf yw nodi fod y gynulleidfa'n parhau i werthfawrogi safon ac amrywiaeth y cynnwys a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.**

**Gwyllo ar deledu ac arlein yn esblygu**  
Mae asesu maint cynulleidfa S4C bellach yn golygu ystyried gwylwyr ar deledu traddodiadol, yng Nghymru a ledled y DU, cyfrif defnyddwyr ar y prif lwyfannau arlein sef S4C Clic a'r BBC iPlayer ac, yn ogystal, y rheini sy'n gwyllo cynnwys S4C ar ystod o lwyfannau arlein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Nid yw'r mesuriadau a ddefnyddir yn cyfateb i'w gilydd yn hwylus ar hyn o bryd, felly rhaid defnyddio pob pennawd gyda gofal.

Yn dilyn blwyddyn hynod lwyddiannus yn 2017-18, pan welwyd cynnydd o ran cyrhaeddiad y gwasanaeth ar deledu, bu cynnal ffigyrau gwyllo ar deledu eleni yn anodd i S4C, fel i'r rhan fwyaf o ddarlledwyr cyhoeddus eraill. Roedd yna lai o chwaraeon byw o safon uchel ar gael, a llai o ddrama. Roedd gwyllo i lawr yn sylweddol hefyd yn ystod y cyfnod hir o dywydd braf a gafwyd. O fewn y cyd-destun hwn gwelwyd gostyngiad o 4% yng nghyrrhaeddiad y gwasanaeth ar deledu ar draws y DU, a gostyngiad o 14% yng nghyrrhaeddiad holl wylwyr ar deledu yng Nghymru.

**S4C's patterns of usage, like those of all other broadcasters, are evolving, with viewers migrating from the television screen to watching content on a range of online platforms and devices. This has led to a reduction in some television viewing figures, but there has also been an increase in terms of viewing on online platforms and social media.**

**As well as viewing figures, it is important that the service and is appreciated by, and meets the audience's expectations. It is good to note that the audience continues to appreciate the standard and variety of the content provided during the year.**

**Viewing on television and online evolving**  
Assessing the size of S4C's audience means considering viewers on traditional television, in Wales and across the UK, counting users on the main online platforms namely S4C Clic and the BBC iPlayer, and also, those who watch S4C content on a range of other platforms, including social media. The measurements used do not correspond conveniently at present, so each heading needs to be treated with care.

Following a very successful year in 2017-18, when an increase was seen in terms of the service's reach on television, maintaining television viewing figures this year was difficult for S4C, as for most other public broadcasters. There were fewer live sports of high standard available, and less drama. Viewing was also substantially down during the long period of good weather that was experienced. In this context a reduction of 4% was seen in the reach of the service on television across the UK, and a drop of 14% in reach in terms of all viewers on television in Wales.



Yr her oesol i S4C yw ceisio ennill y gynulleidfa iau heb golli gafael ar ei gwylwyr craidd. Ymddengys fod yr ymdrechion i apelio at gynulleidfa iau, trwy arbrofi gyda syniadau a fformatau newydd, yn llwyddo, ond ar yr un pryd wedi dieithrio carfan o wylwyr mwy traddodiadol.

Dadansoddiwyd elfennau'r amserlen nad oedd wedi perfformio yn unol â'r disgwyl, a chyflwynwyd newidiadau er mwyn adfer y perfformiad. Yn y flwyddyn newydd gwelwyd arwyddion clir fod y newidiadau a gyflwynwyd wedi eu gwerthfawrogi gan y gynulleidfa, ac adlewyrchwyd hyn ym mherfformiad y gwasanaeth ar y teledu.

Roedd yna hefyd gyfnodau lle roedd hi'n ymddangos bod yna, am resymau ariannol, lawer o ail-ddangos o fewn amserlen yr oriau brig. Daeth yn amlwg hefyd nad oedd rhaglenni o wledydd eraill, wedi eu trosleisio, erystal eu safon, yn apelio at gynulleidfa S4C yn yr oriau brig. Cyfrannodd y ffactorau hyn hefyd at berfformiad siomedig y gwasanaeth yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn.

O fesur ar draws y DU yn ei chyfanrwydd, roedd cyrhaeddiad gwasanaeth S4C ar deledu yn dilyn patrwm o ostyngiad graddol, tebyg i'r hyn a welwyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill.

Er hynny, fe wnaeth y gynulleidfa tu hwnt i Gymru barhau i dyfu, gyda chynnydd pellach o 8% ar deledu flwyddyn ar flwyddyn. Rhaglenni plant sydd wedi cyfrannu fwyaf at y cynnydd hwn. Mae yna werthfawrogiad sylweddol o'r cyfraniad unigryw y mae S4C yn ei wneud i alluogi rhieni ar draws y DU i gadw cysylltiad gyda Chymru a'r Gymraeg.


The perpetual challenge for S4C is to try to win the younger audience without letting go of its core viewers. It appears that the efforts to appeal to a younger audience, by experimenting with new ideas and formats, is succeeding, but at the same time, has alienated a group of more traditional viewers.

Elements of the schedule that had not performed as expected were analysed, and changes were introduced in order to restore the performance. In the new year, there were clear signs that the changes that were introduced had been appreciated by the audience, and this was reflected in the performance of the service on television.

There were also periods where it appeared that, due to financial reasons, there were a great deal of repeats in the schedule at peak times. It became obvious also that programmes from other countries, that had been dubbed, despite their standard, did not appeal to S4C's audience during peak-time. These factors also contributed to the service's disappointing performance in the first part of the year.

The reach of S4C's service on television across the UK followed the pattern of a gradual reduction, similar to that seen by other public service broadcasters.

However, the audience beyond Wales continued to grow, with a further year on year increase of 8% on television. Children's programmes have contributed most towards this increase. There is substantial appreciation of the unique contribution made by S4C to enable parents across the UK to maintain contact with Wales and with the Welsh language.



Gwelwyd cynnydd cyffredinol unwaith eto o ran nifer y sesiynau gwyllo arlein, gyda chlyfanswm o 46.9 miliwn o sesiynau gwyllo i holl gynnwys S4C arlein, gan gynnwys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a S4C Clic a BBC iPlayer. Cafwyd 8.6 miliwn o sesiynau gwyllo i raglenni S4C ar S4C Clic a BBC iPlayer.

A general increase was seen once again in terms of the number of online viewing sessions, with a total of 46.9 million viewing sessions for all S4C content online, including on social media platforms and S4C Clic and BBC iPlayer. There were 8.6 million viewing sessions for S4C programmes on S4C Clic and BBC iPlayer.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd patrymau gwyllo amrywiol iawn yn debyg o ddatblygu. Mae'n fwy na thebyg y byddwn yn gweld rhagor o wylwyr yn mudo i lwyfannau arlein yn lle'r teledu - boed rheiny'n llwyfannau arlein traddodiadol megis S4C Clic a BBC iPlayer neu lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill a ddaw'n boblogaidd yn y blynyddoedd i ddod. Ar yr un pryd, bydd rhaglenni a digwyddiadau o safon neu ddi-ddordeb arbennig yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd niferus i'r gwasanaeth lliniol, ac yn creu swm a siarad eang. Rhaid parhau felly i anelu at ddarpariaeth lliniol cyfoethog tra'n gafeael yn y cyfleodd mae llwyfannau arlein yn eu cynnig i roi mwy o ddewis i wylwyr.

Looking to the future, very varied viewing patterns are likely to develop. It is more than likely that we will see more viewers moving to online platforms instead of television - be they traditional online platforms such as S4C Clic and BBC iPlayer or social media platforms and other platforms that will become popular in coming years. At the same time, programmes and events of particular quality or interest will continue to attract a large audience to the linear service, and create a great deal of discussion. It is therefore imperative to aim for a rich linear provision whilst also taking hold of the opportunities offered by online platforms to provide viewers with more choice.

Mewn byd o'r math, amcan S4C fydd parhau i gyrraedd ystod mor eang â phosibl o wylwyr trwy gyfuniad o wasanaethau Cymraeg ar deledu ac arlein.

In such a world, it will be S4C's objective to continue to reach as wide a range of viewers as possible through a combination of Welsh language services on television and online.

### Pwysigrwydd ystod o lwyfannau arlein

Rydym yn gweld patrymau defnydd gwahanol ar Clic a'r iPlayer, patrymau sy'n cyd-orwedd â'i gilydd ac sy'n rhoi ystod o ddewisiadau i'n cynulleidfa.

Mae S4C Clic a BBC iPlayer yn cynnig y gallu i wyllo'n fyw ac i ddal i fyny ag amserlen liniol y 35 diwrnod blaenorol.

Mae presenoldeb y BBC iPlayer ar ystod eang iawn o ddyfeisiau, na fyddai am resymau ariannol a thechnegol ar gael i S4C fel arall, yn rhoi ffenestr siop bwysig i S4C, ac yn cynnig mynediad hynod gyfleus i'n gwylwyr i raglenni S4C.

Mae S4C Clic hefyd ar gael ar ystod o lwyfannau, ond nid i'r un graddau â'r BBC iPlayer. Yn ogystal â gwyllo'n fyw a dal i fyny ar amserlen y 35 diwrnod blaenorol, mae modd i S4C gynnig ystod ehangach o gynnwys drwy S4C Clic.

Lansiwyd darpariaeth Bocs-Sets ar S4C Clic cyn y Nadolig. Roedd hwn yn ddatblygiad poblogaidd sy'n caniatáu i'r gynulleidfa wyllo cyfresi cyfoes o'r dechrau i'r diwedd, a hefyd yn cynnig clasuron o archif gyfoethog S4C, megis Con Passionate a Tân ar y Comin. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r ddarpariaeth, ac eisoes mae ail gasgliad o Bocs-Sets wedi ei gyflwyno. Bwriedir parhau i gynnig casgliadau newydd o'r archif yn rheolaidd yn y dyfodol. Mae'r Bocs-Sets eisoes yn gyfrifol am 4% o holl sesiynau gwyllo S4C Clic.

Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cynnig cyfleoedd eraill i S4C gyflwyno mathau newydd o gynnwys. Mae cynnig rhaglenni byrion, clipiau gwreiddiol ac eitemau unigol ar gyfryngau cymdeithasol eisoes wedi dod yn batrwm arferol i nifer sylweddol o'n gwylwyr.

### The importance of a range of online platforms

We see different patterns of use on S4C Clic and BBC iPlayer, patterns that exist alongside each other and which provide our audience with a range of options.

Both S4C Clic and BBC iPlayer offer the ability to watch live and also to catch up with the linear schedule of the previous 35 days.

The presence of BBC iPlayer on a very wide range of devices, that would not otherwise be available to S4C for financial and technical reasons, provides S4C with an important shop window and offers our viewers very convenient access to S4C programmes.

S4C Clic is also available on a range of platforms, but not to the same extent as iPlayer. As well as watching live and catching up on the schedule of the previous 35 days, it is possible for S4C to offer a wider range of content through S4C Clic.

A Box-Sets provision was launched on S4C Clic before Christmas. This was a popular development that allows the audience to watch contemporary series from beginning to end, and also offers classics from S4C's rich archive, such as Con Passionate and Tân ar y Comin. A positive response to the provision was received, and already a second collection of Box-Sets has been introduced. It is proposed to continue offering new collections from the archive regularly in future. The Box-Sets are already responsible for 4% of all viewing sessions on S4C Clic.

Social media platforms also offer other opportunities for S4C to present new types of content. Offering short programmes, original clips and individual items on social media has already become a normal pattern for a substantial number of our viewers.



Adloniant a Chomedi  
Entertainment and Comedy

Mae'r gwaith o gynnig a datblygu'r arlwy adloniant a chomedi'n parhau. Dyma'r maes lle gwelwyd yr arbrofi mwyaf wrth geisio cyflwyno syniadau newydd fyddai'n gallu apelio at gynulleidfa ehangach, a llai traddodiadol.

Rhodddwyd pwyslais ar adloniant ffeithiol unwaith eto, gyda chyfresi twymgalon a phoblogaidd megis Prïodas Pum Mil, a ddychwelodd am drydedd cyfres. Mae'r gyfres yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg cynulleidfa sylweddol, gan ddenu canran helaeth o wylwyr ifanc. Cafodd Jonathan rywfaint o wedd newydd wrth gael ei lleoli yn yr Egin a thrwy hynny ddenu cynulleidfa wahanol.

Cyfres newydd a gafodd dderbyniad cynnes oedd Gwesty Aduniad, fformat gwreiddiol i S4C, lle cafwyd ymateb cadarnhaol i'r syniad o ddilyn straeon dirdynnol a chael bod yn y fan a'r lle drwy gyfrwng y rhaglen.

Cyflwynwyd nifer o gyfresi a chymeriadau newydd ffres yn ystod y flwyddyn, gyda Bwyd Epic Chris a Bois y Pizza yn trafod bwyd mewn ffyrdd gwahanol a difyr ac yn ennyn gwerthfawrogiad uchel a dilyniant calonogol arlein.

Ond rhaid cydnabod hefyd bod nifer o gyfresi arbrofol eraill wedi methu yng ngolwg y gwylwyr, gan gynnwys Llanifeiliad a Sioe Stiwdio estynedig Dim Byd Sbeshal. Roedd Y Salon yn enghraifft ddiddorol o syniad gwreiddiol cryf, sydd bellach wedi ei gwerthu'n rhyngwladol fel fformat, ond wnaeth fethu â gafeael yn nychymyg y Cymry.

Mae'r arlwy gomedi'n parhau i ddatblygu, a gwelwyd Elis James, Maggi Noggi a chyfres Stand Yp Cymru oll yn cyflwyno hiwmor Cymraeg cyfoes a gwahanol, heb ddisgwyl i'r cyfan fod at ddant pawb.

Mae plesio pawb o fewn amserlen un sianel deledu wedi bod yn her i S4C erioed, ac ar adegau, nid yw rhai newidiadau'n taro deuddeg. Roedd peidio darlledu adloniant ar nos Sadwrn yn destun beirniadaeth gyson gan wylwyr selog yn ein nosweithiau gwylwyr a bydd y diffyg hwnnw'n cael ei gywiro yn yr hydref.

Cafwyd gwledd o adloniant teuluol dros gyfnod y Nadolig, gan gynnwys Nadolig Hafod Lon, Anfonaf Angel: Côr Rhys Meirion a Sioe 'Nadolig Hen Blant Bach, pob un yn ei ffordd yn cyffwrdd â'r galon.

Mae gallu sianel deledu i greu sgwrs genedaethol yn parhau, a llwyddodd cyfres newydd Ffit Cymru i ddenu cynulleidfa sylweddol a gwylwyr newydd, gyda thaith y pum arweinydd yn destun trafodaeth a chefnogaeth trwy Gymru.

Roedd darlledu cystadleuaeth Junior Eurovision yn uchafbwynt newydd i S4C. Er mwyn cyrraedd y llwyfan ym Minsk, roedd rhaid dewis cynrychiolydd ar gyfer Cymru. Manw ddaeth i'r brig yn y gyfres boblogaidd Chwilio am Seren gyda'r gân 'Perta'.

The work of proposing and developing the entertainment provision continues. This is the area in which the greatest experimentation was seen in trying to introduce new ideas that could appeal to a wider, and less traditional audience.

Emphasis was again placed on factual entertainment, with popular and heart-warming series such as Prïodas Pum Mil, that returned for a third series. The series continues to be popular among a substantial audience, attracting a substantial percentage of young viewers. Jonathan had something of a makeover, having been located at the Egin and thus attracted a different audience.

A new series that was given a warm reception was Gwesty Aduniad, an original format to S4C, where there was a positive response to the idea of following heart-rending stories and being in the exact place through the medium of the programme.

A number of new, fresh series and characters were introduced during the year, with Bwyd Epic Chris and Bois y Pizza discussing food in different and interesting ways and gaining high appreciation and a heartening following online.

But it must also be acknowledged that a number of other experimental series failed in the eyes of the viewers, including Llanifeiliad and the extended studio show Dim Byd Sbeshal. Y Salon was an interesting example of a strong, original idea that has now sold internationally as a format, but which failed to capture the imagination of Welsh people.

The comedy provision continues to develop, and Elis James, Maggi Noggi and the series Stand Yp Cymru were all seen presenting contemporary and different Welsh humour, without expecting all of it to be to everyone's taste.

Pleasing everyone within the schedule of one television channel has always been a challenge for S4C, and at times, some changes have not succeeded. Not broadcasting entertainment on a Saturday evening was the subject of regular criticism by committed viewers in our viewers' evenings and that shortcoming will be put right in the autumn.

There was a feast of family entertainment over the Christmas period, including Nadolig Hafod Lon, Anfonaf Angel: Côr Rhys Meirion and Sioe 'Nadolig Hen Blant Bach, each, in its own way, touching the heart.

The ability of a television channel to create a national conversation continues, and the new series Ffit Cymru succeeded in attracting a substantial audience and new viewers, with the journey of the five leaders being the subject of discussion and support throughout Wales.

Broadcasting Junior Eurovision was a new highlight for S4C. In order to reach the stage in Minsk, a representative for Wales had to be selected. Manw won the day in the popular series Chwilio am Seren with the song 'Perta'.



Drama  
Drama

Eleni, yn dilyn blwyddyn lawn y llynedd, roedd y cyfresi drama a gyd-gynhyrchir, oll mewn cyfnod datblygu. O ganlyniad, gwelwyd llai o ddrama ar sgrîn S4C ei hun, ac roedd y pwyslais ar gyfresi amrywiol a safonol a grewyd yn unswydd ar gyfer y gynulleidfa Gymraeg a Chymreig. Roedd yna hiwmor tywyll a gwreiddiol yn Enid a Lucy, a gafodd groeso digamsyniol, ac fe lwyddwyd i werthu sgriptiau a syniad y gyfres afaelgar 35 Awr i'w cynhyrchu yn Saesneg ar gyfer Channel 5.

Gwelwyd Craith (cyd-gynhyrchiad gyda BBC Cymru) a Bang, a ddarlledwyd ar S4C yn ystod y flwyddyn flaenorol, ar sianeli rhwydwaith - y naill mewn fersiwn Saesneg a'r llall, wnaeth arbrofi gyda elfen o ddwyieithrwydd, yn y fersiwn wreiddiol. Roedd y ddwy gyfres yn datblygu ymhellach enw da S4C am greu dramau ditectif gafaelgar a thywyll.

Gallwn felly ymfalchio yn llwyddiant trawiadol ein cyd-gynyrchiadau, a'r sylw a ddaw i Gymru ac i'r diwydiant cynhyrchu Cymreig yn eu sgil, tra hefyd yn sicrhau ein bod yn cynnig llwyfan i ddramau ac awduron sy'n creu ffuglen wreiddiol ar gyfer y gynulleidfa Gymreig.

Lansiwyd darpariaeth Bocs Sets cyn y Nadolig, ac mae'r cyfresi drama sydd ar gael, megis 35 Awr, Y Gwyll a Con Passionate yn gyfrifol am 67% o holl wyllo'r Bocs Sets. Drama yw un o'r genres mwyaf poblogaidd ar S4C Clic a BBC iPlayer.

This year, following last year's great run, all co-produced drama series were in the development phase. As a result, less drama was seen on the S4C screen, and the emphasis was on diverse and high quality series created specifically for the Welsh audience. There was dark original humour in Enid a Lucy, which was definitely welcomed, and the scripts and ideas of the gripping series 35 Awr were subsequently sold to Channel 5 to be produced in English.

Craith (a co-production with BBC CymruWales) and Bang, broadcast on S4C the previous year, were aired on network channels - one in an English version and the other, which experimented with an element of bilingualism, in the original version. Both series further developed S4C's reputation for creating gripping, dark detective dramas.

We can therefore take pride in the impressive success of our co-productions, and the attention that comes to Wales and the Welsh production industry as a result, whilst also ensuring that we offer a platform for drama and for authors who create original fiction intended for the Welsh audience.

A Box Sets provision was launched before Christmas, and the drama series that are available, such as 35 Awr, Y Gwyll and Con Passionate account for 67% of all viewings of the Box Sets. Drama is one of the most popular genres on S4C Clic and BBC iPlayer.



### Plant a phobl ifanc Children and young people

Wrth droi'n ddeg oed yn ystod y flwyddyn, fe gafodd Cyw nifer o bartïon pen-blwydd ar draws Cymru. Cafwyd dathliadau ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed, taith gyda Cyw a'i ffrindiau o amgylch 60 o ysgolion Cymru, meithrinfeydd ac ysbytai a chyngerdd arbennig a drefnwyd ar y cyd gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn Neuadd Hoddinott yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd.

Ar ôl degawd o ddiddanu plant Cymru, braf gwelw fod poblogrwydd Cyw yn parhau ymysg y genhedlaeth nesaf o blant.

Mae cynulleidfa Cyw yn arwain y newidiadau o ran patrymau gwyllo, a'n gwylwyr ieuegaf sy'n dangos y ffordd o ran sut y bydd angen i S4C ddarparu cynnwys o hyn ymlaen. Mae Cyw'n parhau'n boblogaidd ar y teledu yng Nghymru ac ar draws y DU, ac mae ffigyrau gwyllo darpariaeth lliniol Cyw Tiwb a darpariaeth ar-alw Cyw yn parhau i gynyddu. Mae'n sicr mai ar lwyfannau arlein y byddwn yn gweld cynnydd yn y defnydd o gynnwys Cyw yn y dyfodol.

O fewn darpariaeth Cyw, mae'r angen i sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng deunydd gwreiddiol a brandiau rhyngwladol adnabyddus yn parhau. Mae gan Cyw rôl unigryw o ran cyflwyno'r iaith i'n gwylwyr ieuegaf, ac mae rhaglenni gwreiddiol megis Deian a Loli yn elfennau pwysig o'r ymgais hon. Derbyniodd y gyfres hon gydnabyddiaeth haeddiannol ar lwyfan Prydeinig wrth gael ei henwebu yng ngwobrau Broadcast ac ennill Bafta Cymru.

As she turned ten years old during the year, Cyw had a number of birthday parties across Wales. Celebrations were held on the stage at Eisteddfod yr Urdd in Brecon and Radnorshire, a tour with Cyw and friends around 60 schools, nurseries and hospital wards in Wales and a special concert organised jointly with the BBC National Orchestra of Wales at Hoddinott Hall during the National Eisteddfod in Cardiff Bay.

After a decade of entertaining the children of Wales, it is good to see Cyw's popularity continuing among the next generation of children.

Cyw's audience is leading the changes in terms of viewing patterns, and it is our youngest viewers who are showing the way in terms of how S4C will need to provide content from now on. Cyw remains popular on television in Wales and across the UK, and the viewing figures for the linear provision Cyw Tiwb and Cyw on demand are continuing to increase. It is certain that it is on online platforms that we will see an increase in the use of Cyw content in the future.

Within the Cyw provision, there is a need to ensure the continuation of an appropriate balance between original material and well-known international brands. Cyw has a unique role in terms of presenting the language to our youngest viewers, and original programmes such as Deian a Loli are important elements of this task. This series received well-deserved recognition on the British stage when it was nominated in the Broadcast and Bafta Wales awards.





## Stwnsh a phlant hŷn Stwnsh and older children

Cafodd criw Stwnsh a'u cynulleidfa hwyl unwaith eto wrth gyflwyno gemau a giamocs Stwnsh Sadwrn yn fyw o Fae Caerdydd bob wythnos. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r arlwy ar deledu ac arlein, ac yn ogystal sioeau llawn hwyl y criw yn yr Eisteddfodau.

Mae'r her o apelio i'r gwylwyr ifanc sy'n symud i'r cam nesaf ar ôl blynyddoedd o fwynhau Cyw a'i ffrindiau yn un sylweddol i S4C, fel i bob darlledwr cyhoeddus, ac mae'r rhaglenni sy'n llwyddo i ddenu plant hŷn i barhau i ymwneud â'r gwasanaeth yn rhai pwysig. Mae'n destun balchder i S4C i Prosiect Z ennill gwobr Bafta Plant a gwobr Brydeinig yr RTS am raglen blant orau'r flwyddyn.

Mae cynulleidfa'r oed yma yn gynyddol soffistigedig, ac yn gwybod yn well na neb lle i chwilio ac ar ba lwyfan i ddarganfod y cynnwys gorau. Yng nghydestun adnoddau ariannol cyfyngedig cynhaliwyd adolygiad o'r arlwy gyda'r nod o ganolbwyntio gwariant yn y dyfodol ar elfennau safon uchel fydd yn destun trafod a dilyniant gan y grŵp oedran dan sylw.

The Stwnsh crowd and their audience again had fun presenting the games and antics of Stwnsh Sadwrn live from Cardiff Bay every week. There was a positive response to the provision on television and online, as well as their fun-filled shows held at the Eisteddfodau.

The challenge of appealing to young viewers who are moving to the next stage after years of enjoying Cyw and friends is a substantial one for S4C, as it is for every public broadcaster, and the programmes that succeed in attracting older children to continue to be involved with the service are important ones. S4C is very proud that Prosiect Z won a Children's Bafta award and the British RTS award for the best children's programme of the year.

The audience in this age-group is increasingly sophisticated, and knows better than anyone where to look and on what platform to find the best content. In the context of limited financial resources, a review of the provision was carried out, with the aim of concentrating expenditure in the future on high-standard elements that will be the subject of discussion and following by the age-group in question.

## Hansh

Mae Hansh wedi ennill ei blwyf ymysg y gynulleidfa darged, ond hefyd ymysg ystod eang o'r gynulleidfa sy'n ifanc eu hysbryd. Mae'r cynnwys beiddgar a ffraeth wedi cydio yn nychymyg y gynulleidfa iau, gyda'r defnydd, a'r ymateb iddo, yn cynyddu'n drawiadol. Denodd 6.8 miliwn o sesiynau gwyllo arlein yn ystod y flwyddyn.

Mae cymeriadau megis Bry, Ameer ac eraill yn cyflwyno eitemau sy'n parhau'n hynod boblogaidd, ac sy'n ennyn ymateb sylweddol gan y gynulleidfa. Mae'r ymwneud gyda chynnwys Hansh o ran ei rannu, ei 'hoffi' a'i drafod ar rwydweithiau cymdeithasol yn dyst i ddilyniant a phoblogrwydd y cynnwys. Yn ogystal â chadarnhau llwyddiant y ddarpariaeth, mae'r ymwneud hyn yn ei dro'n arwain at gynyddu ymwybyddiaeth a diddordeb yng nghynnwys Hansh sy'n ehangu'r gynulleidfa ac yn cyflwyno darpariaeth S4C i gynulleidfa newydd.

Gwelwyd arlwy Hansh yn ymestyn o faes adloniant i ymwneud gyda phynciau gwleidyddol trwy gyfrwng Hansh yn Holi. Roedd hyn yn ddatblygiad diddorol i'r brand, a braf nodi fod y ddarpariaeth newydd wedi taro deuddeg gyda'r gynulleidfa, gan gynnig golwg newydd ar bynciau gwleidyddol y dydd.

Mae model Hansh o gynnig cynnwys i gynulleidfa benodol fel sianel arlein yn cynnig dull diddorol ar gyfer curadu a chyflwyno cynnwys S4C yn y dyfodol.

Hansh has gained recognition among the target audience, but also among a wide range of the audience who are young at heart. The bold and witty content has captured the imagination of the younger audience, with the material, and the response to it, being increasingly striking. It attracted 6.8 million online viewing sessions during the year.

Characters such as Bry, Ameer and others introduce items that remain highly popular, and which engender a substantial response from the audience. Engagement with Hansh content, in terms of sharing 'liking' and discussing on social media bears witness to the popularity of the content and its following. As well as confirming the success of the provision, this involvement in turn leads to increasing awareness and interest in Hansh content which broadens the audience and presents S4C's provision to a new audience.

We saw Hansh expanding from the field of entertainment to dealing with political subjects by means of Hansh yn Holi. This was an interesting development for the brand, and it is good to note that the new provision is a hit with the audience, offering a new look at the political topics of the day.

The Hansh model of offering content to a specific audience as an online channel is an interesting method of curating and presenting S4C content in the future.





Rhaglenni Dyddiol,  
Hamdden a Nodwedd  
Daily, Leisure and  
Feature Programmes

Mae'r gwasanaeth safonol y mae criwiau cynhyrchu rhaglenni dyddiol Heno a Pnawn Da yn ei gyflawni drwy'r flwyddyn yn parhau i gael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan gynulleidfa eang yng Nghymru ac ar draws y DU.

Mae Heno a Pnawn Da yn parhau i fod yn rhan annatod o amserlen y gwasanaeth teledu, ac maent yn llwyddo i ddarganfod a chyflwyno straeon diddorol o bob cwr o Gymru drwy'r flwyddyn, gan gynnal y ffigyrau gwyllo uchaf ers chwe blynedd.

Mae'r defnydd sy'n cael ei wneud o'r cynnwys hefyd yn dangos fod cynnwys safonol a llwyddiannus yn gallu byw ar y teledu mewn un ffurf ac arlein mewn ffurf arall. Cafwyd 5.7 miliwn o sesiynau gwyllo arlein i eitemau Heno a Pnawn Da.

Yn ogystal â'r rhaglenni dyddiol, mae cyfresi megis Garddio a Mwy'n parhau i gynnig arlwy ffres a diddorol sy'n adlewyrchu'r diddordeb eang mewn garddio a materion amgylcheddol. Mae'r gynulleidfa'n nodi'n gyson eu dymuniad i weld cymunedau a chymeriadau ar draws Cymru'n cael eu portreadu ar y sgrîn, a gwnaed hyn yn llwyddiannus iawn yn y gyfres newydd Helo Syrjeri, cyfres "pry ar y wal" o feddygfa ym Mlaenau Ffestiniog. Cynhyrchwyd y gyfres Adre yn wreiddiol fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr, gydag adnoddau cynhyrchu cymharol gyfyngedig, ond gwelwyd bod iddi apêl eang ac fe'i trosglwyddwyd i'r oriau brig gan dderbyn croeso cynnes – enghraifft o ddyfeisgarwch cynllunio canmoladwy, o fewn cyfyngiadau ariannol.

The high quality service that Heno and Pnawn Da's production crews produce throughout the year continues to be used and appreciated by a wide audience in Wales and across the UK.

Heno and Pnawn Da continue to be an integral part of the television service's schedule, and they succeed in finding and presenting interesting stories from all parts of Wales throughout the year, and maintained their highest viewing figures for six years.

The use made of the content also demonstrates that high quality, successful content can exist on television in one form and online in another. Items from Heno and Pnawn Da attracted 5.7 million online viewing sessions during the year.

As well as the daily magazine programmes, series such as Garddio a Mwy continue to offer a fresh, interesting provision that reflects the wide interest in gardening and environment matters. The audience notes regularly their desire to see communities and characters across Wales being portrayed on screen, and this was done very successfully in the new series Helo Syrjeri, a "fly on the wall" series from a surgery in Blaenau Ffestiniog. Adre was originally produced as part of the provision for Learners, with relatively limited production resources, but it was seen to have wide appeal and it was transferred to peak hours and received a warm welcome – an example of laudable planning ingenuity, within financial constraints.

Newyddion a Materion Cyfoes  
News and Current Affairs

Bu'n flwyddyn o gynwrf gwleidyddol eithriadol wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd. Rhoddwyd sylw cyson i hynt a helynt y cecru gwleidyddol ar Newyddion 9, wrth i'r gwasanaeth barhau i gyflwyno trawsdoriad da o straeon a safbwyntiau o bob cwr o Gymru; a chafwyd cyfle hefyd i glywed barn y bobol ar raglen drafod Pawb a'i Farn a gynhyrchir hefyd gan BBC Cymru.

Gwnaed ymgais fwriadol eleni i roi ffresni i'r arlwy materion cyfoes gyda dwy gyfres newydd sbon. Roedd yna groeso cyffredinol, yn ogystal ag ymateb cryf i ambell eitem, i gyfweiliadau Guto Harri gyda ffigurau gwleidyddol a dadleuol yn Y Byd Yn Ei Le. Bu'r rhaglen yn craffu ar y pleidiau wrth iddyn nhw ethol arweinwyr newydd ac wrth i Gymru gael Prif Weinidog newydd. Cyflwynodd Ein Byd Sion Jenkins fel newyddiadurwr newydd effeithiol iawn oedd yn dadlennu elfennau pur anghyfforddus o fywyd cyfoes Cymru a'r Cymry. Cafwyd ymchwiliadau treiddgar i bynciau amrywiol gan Y Byd ar Bedwar ac, mewn partneriaeth newydd gyda ITV Cymru, datblygwyd cynllun hyfforddiant i newyddiadurwyr, gyda'r cynnwys yn cael ei gyhoeddi dan faner Hansh.

It was an exceptional political year as the United Kingdom prepared to leave the European Union. Regular attention was given to the political wrangling on Newyddion 9, as the service continued to present a good cross-section of views from all parts of Wales; and there was an opportunity also to hear the opinions of the audience on the discussion programme Pawb a'i Farn that is also produced by BBC Cymru Wales.

Efforts were made this year to inject freshness to the current affairs provision with two brand new series. There was a general welcome, as well as a strong response to some items, to Guto Harri's interviews with political and controversial figures in Y Byd Yn Ei Le. The programme scrutinised the parties as they elected new leaders and as Wales gained a new Prime Minister. The series Ein Byd presented Sion Jenkins as a new and very effective journalist who revealed some quite uncomfortable elements of current life in Wales and of the Welsh people. There were incisive investigations into varied topics by Y Byd ar Bedwar and, in a new partnership with ITV Wales, a training programme for journalists was developed, with the content being published under the Hansh brand.

◀ Garddio a Mwy

▼ Y Byd Yn Ei Le



## Digwyddiadau Events

Mae'r gynulleidfa'n nodi'n gyson mai S4C yw cartref y digwyddiadau Cymraeg. Mae darpariaeth S4C yn unigryw, a does dim gwasanaeth arall all gynnig y fath ddarpariaeth o'r digwyddiadau cenedlaethol. Mae'r arlwy cynhwysfawr yn cynnwys darlledu byw ac uchafbwyntiau o Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Yr Ŵyl Gerdd Dant, y Ffair Aeaf ac Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc.

Mae'r arlwy'n boblogaidd iawn ar deledu ac arlein yng Nghymru ac ar draws y DU, a safon uchel y cynhyrchu'n amlwg.

The audience notes consistently that S4C is the home of the Welsh events. S4C's provision is unique, and there is no other service that can offer such provision from the national events. The comprehensive provision includes live broadcasts and highlights from Eisteddfod yr Urdd, the Llangollen International Eisteddfod, the Royal Welsh Show, the National Eisteddfod, Yr Ŵyl Gerdd Dant, the Winter Fair and the Young Farmers' Eisteddfod.

The provision is very popular on television and online in Wales and across the UK, and the productions are clearly of a high standard.

## Rhaglenni Ffeithiol a Dogfen Factual and Documentary Programmes

Y gyfres Drych oedd prif gerbyd rhaglenni dogfen y flwyddyn gan gynnig amrywiaeth o bynciau oedd, yn unol â'r teitl, yn adlewyrchu pynciau o ddiddordeb cyfoes. Roedd gonestrwydd Elin Fflur wrth ganiatáu mynediad i'r camera wrth iddi wynebu triniaeth IVF, yn ddirdynol, tra roedd O'r Ysgol i'r Prom yn ddarlun dadlennol o amrywiaeth ieuencid Cymru yn yr 21ain ganrif. Rhaid canmol uchelgais Y Wal, cyd-gynhyrchiad gyda TG4 o Iwerddon ac MG Alba, a fentrodd i rai o leoliadau mwyaf peryglus a dadleuol y byd i drafod effaith gwahanu pobl a chymunedau oddiwrth ei gilydd. Syniad unigryw llawn cynhesrwydd oedd Dathlu Dewrder: tlws plant S4C, ac mae Her yr Hinsawdd wedi cael ei defnyddio bellach mewn ysgolion.

Drych was the main vehicle for documentary programmes during the year, offering a variety of subjects which, in accordance with the title, reflected subjects that were of current interest. The honesty displayed by Elin Fflur in allowing access to the cameras as she faced IVF treatment, was heart-rending, whilst the O'r Ysgol i'r Prom provided a revealing picture of the diversity of young people in Wales in the 21st century. Praise must go to the ambition of Y Wal, a joint-production with TG4 from Ireland and MG Alba, which ventured into some of the most dangerous and controversial locations in the world to discuss the effects of separating people and communities. Dathlu Dewrder: tlws plant S4C, was a unique and heart-warming idea, and Her yr Hinsawdd has now been used in schools.





## Operau Sebon Soap operas

Mae operâu sebon Pobol y Cwm a Rownd a Rownd yn greiddiol i'r amserlen, ac yn denu cynulleidfaoedd sylweddol ar deledu ac arlein.

Mae sesiynau gwyllo ar lein y ddwy gyfres yn dal i gynyddu, a pherfformiad rhaglen omnibws Pobol y Cwm ar ddydd Sul yn parhau i gryfhau a denu cynulleidfa eang, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg.

Yn sianel sy'n dangos sut beth yw hi i fyw yng Nghymru  
A channel that shows what it's like to live in Wales




Yn sianel sy'n adlewyrchu bywyd modern yng Nghymru  
A channel that reflects modern Welsh life




Yn sianel sydd wedi fy addysgu mewn rhyw ffordd ynghylch Cymru a'i phobl  
A channel that has educated me in some way about Wales and its people



Yn sianel sy'n dangos rhaglenni am fy rhan i o Gymru  
A channel that shows programmes about my area of Wales



Yn sianel sydd â'r arlwy gorau o ddigwyddiadau yng Nghymru  
A channel that has the best coverage of events in Wales



Yn sianel sy'n adlewyrchu Cymru wledig  
A channel that reflects rural Wales

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2019)  
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2019)



# 5

**Gweithgarwch darlledu S4C i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth pobl o ddiwylliant Cymru.**  
**S4C's broadcast activity to have a positive impact on the development of the Welsh language and people's awareness of the culture of Wales.**

Mae S4C yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg  
S4C plays an important role in supporting and promoting the Welsh language and culture



Mae gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg yn datgan fod S4C yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru ac ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg.  
**Welsh-speaking S4C viewers state that S4C has a positive impact on their awareness of Welsh culture and the development of the Welsh language.**




Geraint Jarman:  
Gig y Pafiliwn


Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n:  
The S4C Tracking Image Survey found that S4C's Welsh-speaking viewers believed that S4C is a channel that:




Bwysig ar gyfer yr iaith Gymraeg  
Is important for the Welsh language




Cyfrannu at ddiwylliant Cymru  
Contributes to the culture of Wales




Cefnogi'r iaith Gymraeg drwy ei rhaglenni a'i chynnwys  
Supports the Welsh language through its programming and content




Cadw'r iaith Gymraeg yn fyw  
Keeps the Welsh language alive



Cynyddu fy ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol Cymreig  
Makes me more aware of Welsh cultural events



Gwneud i'r iaith Gymraeg ddod yn fyw  
Makes the Welsh language come alive



Gwneud i'r iaith Gymraeg ymddangos yn fwy modern a perthnasol  
Makes the Welsh language seem more modern and relevant

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2019)  
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2019)



Mae portreadu amrywiaeth o fewn cymdeithas ar y sgrîn yn flaenoriaeth bwysig i S4C ac mae'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi portread S4C o amrywiaeth cymdeithas Cymru o fewn y gwasanaeth. Portraying diversity within society on-screen is an important priority for S4C, and the audience values S4C's portrayal of the diversity of Welsh society within the service.

75%

Mae 75% o wylwyr sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sydd wedi llwyddo i adlewyrchu amrywiaeth y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran oed, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu ethnigrwydd ar draws ei raglenni yn ystod 2018/19.

**75% of Welsh speaking viewers feel that S4C reflected the diversity of people living in Wales in terms of age, gender, disability, sexual orientation, religion or ethnicity across its programmes in 2018/19.**

Mae S4C yn parhau i ennill sgôr llawer uwch na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**S4C continues to receive significantly higher scores amongst Welsh speaking viewers than the other public service broadcasters in Wales.**

(Mae hyn yn gynydd bach ers 2017/18 pryd cafwyd sgôr o 71%, a hwn yw'r sgor uchaf ers holi'r cwestiwn am y tro cyntaf yn 2015/16)

*(This represents a slight increase since 2017/18 when 71% said the same and is the highest level this measure has been since being asked in 2015/16.)*

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2018)

*(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2019)*



Sioe 'Dolig Hen Blant Bach

**Ymrwymiad S4C i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth - Gwella portread ac amrywiaeth ar y sgrîn**

Roedd Ymrwymiad newydd S4C i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau i arwain gwaith S4C yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau fod portread o fewn y gwasanaeth yn parhau i wella.

Roedd portread yn flaenoriaeth bwysig i sawl elfen o'r gwasanaeth gan gynnwys Hansh, chwaraeon, materion cyfoes, plant ac adloniant ffeithiol.

Mae S4C wedi cydweithio gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys y Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol, cynllun Troed yn y Drws Ffilm Cymru Wales, cynllun awduron newydd Theatr Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.

**S4C's commitment to Equality and Diversity - Improving portrayal and diversity on-screen**

During the year S4C's new Commitment to Equality and Diversity continued to lead S4C's work to ensure that portrayal within the service continues to improve.

Portrayal was an important priority for several elements of the service including Hansh, sports, current affairs, childrens and factual entertainment.

S4C has cooperated with a number of partners including the Creative Diversity Network, Ffilm Cymru Wales foot in the door, Theatr Genedlaethol Cymru new authors' project and with Welsh Government.





# 6

Gwerthfawrogiad a defnydd da o'r gwasanaethau ar gyfer plant.  
Appreciation and good use of the services for children.

Mae ymrwymiad cadarn S4C i ddarparu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc – ar deledu, arlein ac mewn sioeau byw ledled Cymru yn parhau i gael ei werthfawrogi gan ein gwylwyr.

S4C's strong commitment to providing Welsh language services for children and young people - on television, online and in live shows across Wales continues to be appreciated by our viewers.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn:  
The S4C Tracking Image Survey found that S4C's Welsh-speaking viewers believe that:



Ei bod yn bwysig iawn fod gwasanaeth teledu Cymraeg ar gyfer plant ar S4C  
it's very important that there is a Welsh language television service for children on S4C

Mae S4C yn sianel ag ymrwymiad arbennig i raglenni plant.  
S4C is a channel that is especially committed to children's programmes


(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2019)  
(Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2019)




Mae Sioeau Cyw yn teithio i leoliadau ledled Cymru. O'r sioeau poblogaidd yn yr Eisteddfodau i Sioe Nadolig Cyw, mae plant Cymru wrth eu bodd i gael cyfle i gyfarfod a chanu a dawnsio gyda'u hoff gymeriadau.

Mynychodd dros 6,000 o bobl Sioe Nadolig Cyw mewn lleoliadau ledled Cymru.  
Cyw's Shows continued to tour locations across Wales. From the popular shows at the Eisteddfodau, the Cyw Christmas Show tour, the children of Wales are always thrilled to have the opportunity to meet, sing and dance with their favourite characters.

More than 6,000 viewers attended the Cyw Christmas show in locations across Wales.



Dathlodd Cyw, cymeriad oedran meithrin S4C ei phenblwydd yn 10 oed yn ystod y flwyddyn. Aeth Cyw a'i ffrindiau ar daith penblwydd arbennig, gan ymweld â 60 o ysgolion, meithrinfeydd ac ysbytai er mwyn dathlu deng mlynedd o ddarpariaeth oed meithrin S4C.  
Cyw, S4C's pre-school character turned 10 during the year. Cyw and her friends embarked upon a special birthday tour, and visited 60 schools, nurseries and hospital wards to celebrate ten years of S4C's highly acclaimed pre-school provision.



Mae'r defnydd o wasanaethau Cyw a Stwnsh – ar deledu ac arlein yn parhau i fod yn galonogol iawn, gyda'r gynulleidfa'n parhau i werthfawrogi'r ddarpariaeth lliniol yn ogystal â'r gallu i wyllo'u hoff gyfresi ar alw.  
The use of Cyw and Stwnsh services - on television and online remains encouraging, with the audience continuing to appreciate the linear provision as well as the ability to watch their favorite series on demand.






## Ffigyrau gwyllo Cyw a Stwnsh ar deledu ac arlein Cyw and Stwnsh viewing figures on TV and online


Cyrhaeddiad Cyw ar deledu  
(Mewn miloedd, ar sail fisol)  
Cyw reach on television  
(In thousands, on a monthly basis)

Tu allan i Gymru / Outside Wales  
Cymru / Wales




Cyrhaeddiad Stwnsh ar deledu  
(Mewn miloedd, ar sail fisol)  
Stwnsh reach on television  
(In thousands, on a monthly basis)

Tu allan i Gymru / Outside Wales  
Cymru / Wales



Sesiynau gwyllo arlein Cyw a Stwnsh  
Cyw & Stwnsh online viewing sessions

BBC iPlayer  
CywTiwb  
S4C Clic





7

**Cael canfyddiad ymysg Dysgwyr o'r Gymraeg fod S4C yn darparu ar eu cyfer yn llwyddiannus gyda rhaglenni a gwasanaethau addas.**  
**Achieve a perception amongst those learning Welsh that S4C successfully provides appropriate programmes and services for them.**

Mae pobl sy'n dysgu Cymraeg, neu sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg yn rhan bwysig o gynulleidfa S4C. **Welsh learners, or those who are interested in learning Welsh, are an important part of S4C's audience.**

Mae S4C yn chwarae rhan bwysig yn siwrne pobl sy'n dysgu Cymraeg, gan gynnig cyfle i glywed a mwynhau'r iaith mewn cyd-destun, ac i gael eu trochi mewn sawl agwedd o'r diwylliant sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Dysgwyr yn bwnc sy'n cael sylw cyson yn Nosweithiau Gwylwyr S4C ac mae'r adborth a dderbynnir yn ategu canlyniadau gwaith ymchwil sy'n cael ei gynnal gan S4C gyda rhanddeiliaid yn y maes dysgu Cymraeg, gan gynnwys y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, tiwtoriaid a chanolfannau iaith.

Datblygwyd strategaeth S4C ar gyfer cynnwys i ddysgwyr, a chymorth i wylwyr sy'n dysgu Cymraeg mewn cydweithrediad gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae strategaeth newydd S4C yn cynnig mwy na gwersi iaith, a bydd S4C yn cefnogi dysgwyr o bob lefel ar eu taith, gan gynnig cyfleoedd hwyliog ac adloniannol i glywed a defnyddio'r Cymraeg, ac i roi'r iaith mewn cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol.

Mae partneriaeth S4C gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn parhau i ddatblygu ac yn cyfrannu at welliannau yn ein darpariaeth ar gyfer dysgwyr.

Mae S4C a'r Ganolfan yn cydweithio er mwyn creu gwersi cyfoes yn seiliedig ar gfyresi megis Ffit Cymru ac Un Bore Mercher.

S4C plays an important role in the journey of those learning Welsh, offering opportunities to hear and enjoy the language in context and also to learn and be immersed in many aspects of the culture that surrounds the Welsh language.


The provision for Learners is a subject that is regularly discussed in S4C's Viewers' Evenings and the feedback received complements the results of research conducted by S4C with stakeholders in the field of Welsh learning, including with the National Centre for Learning Welsh, Welsh Government, language tutors and language centres.

S4C's strategy for content for learners, and support for viewers who are learning Welsh has been developed in collaboration with the National Centre for Learning Welsh. S4C's new strategy offers more than just language lessons and S4C will assist learners of all levels on their journey, providing fun and entertaining opportunities to hear and use Welsh, and to place the language in a social and cultural context.


S4C's partnership with the National Centre for Learning Welsh continues to develop and is contributing to the improvement of our provision for learners.

S4C and the Centre continue to work together to create contemporary lessons based on S4C series including Ffit Cymru and Un Bore Mercher.


Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sydd: **The S4C Tracking Image Survey found that S4C's Welsh-speaking viewers believed that S4C is a channel that:**



**Yn darparu gwasanaeth cefnogol da i'r rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg**  
**Provides a good support service for Welsh learners**



**Wedi gwella fy nealltwriaeth o eiriau Cymraeg**  
**Has improved my understanding of Welsh words**



**Yn fy ngwneud yn fwy hyderus yn fy nefnydd o'r Gymraeg**  
**Makes me more confident in my use of the Welsh language**

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2019)  
 (Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2019)

**S4C – yn cefnogi hyder Dysgwyr Cymraeg**  
**S4C – helping Learners' confidence**

**Fel rhan o bartneriaeth S4C gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cynhliwyd ymchwil gan y Ganolfan i ystyried agweddau dysgwyr tuag at yr iaith Gymraeg ac yn benodol o amgylch 'hyder' wrth ddefnyddio'r Gymraeg.**

- Canfu ymchwil ymysg Dysgwyr ar Banel Ymateb S4C fod:
- Dysgwyr o'r farn fod gwasanaeth S4C yn bendant yn eu cynorthwyo ar eu siwrne wrth ddysgu'r iaith.
  - Cytundeb uchel ymysg Dysgwyr fod S4C yn wasanaeth:
    - Y byddent yn argymhell i eraill fel ffordd o wella hyder a sgiliau iaith Gymraeg;
    - Sydd wedi bod o gymorth iddynt wrth ymarfer sgiliau iaith yn y Gymraeg; ac
    - Wedi gwella eu sgiliau iaith Cymraeg.
  - Mae hyder yn elfen bwysig wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Roedd yn dda i weld fod gwylwyr rhaglenni ar S4C ymysg y 3 sefyllfa ble mae hyder Dysgwyr ar ei uchaf – ynghyd â "siarad mewn sefyllfa dysgu" a "siarad gyda theulu a ffrindiau agos".
  - Mae dysgwyr yn nodi gwerthfawrogiad nid yn unig i'r arlwy benodol ar gyfer dysgwyr, ond yn ogystal i amrediad eang iawn o raglenni ar y sianel – o sebon a drama i raglenni dyddiol a chwaraeon, ac adloniant a ffeithiol hefyd.

(ffynhonnell: TRP, Panel Cyfryngau Cymru)

**S4C's partnership with the National Centre for Learning Welsh led to research conducted by the Centre that looked at learners' attitudes towards the Welsh language and in particular the question of 'confidence' when using the Welsh language.**

- Research amongst S4C's Audience Reaction Panel found that:
- Learners see S4C as a service that definitely helps them on their journey learning the language.
  - There is a high agreement among Learners that S4C is a service that:
    - They would recommend to others as a means of improving Welsh language confidence and skills;
    - Helped them to practice Welsh language skills; and
    - Improved their Welsh language skills.
  - Learners state that 'confidence' is an important element in using Welsh. It was good to see that watching programmes on S4C was among the 3 situations where Learner confidence is at its highest - as well as "speaking in a learning situation" and "talking to family and close friends".
  - Learners state that in addition to specific programmes for learners, they also appreciate the wide variety of programmes on S4C - from soap and drama to daily programmes and sports, and entertainment and factual too.

(source: TRP, Wales Media Panel)



# 8

**Sicrhau bod gwasanaethau S4C yn darparu gwerth am arian i'r gynulleidfa.**  
**Ensure that S4C's services provide value for money to the audience.**

Mae S4C yn anelu i sicrhau fod y canran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar gynnwys sy'n gymharus o ran ansawdd gyda chynnwys rhaglenni rhwydwaith eraill y DU, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod rhaglenni yn cael eu cynhyrchu yn y modd fwyaf effeithlon a bod cost gorbenion S4C yn parhau yn isel.

Gwerth am arian yw'r berthynas rhwng cost a pherfformiad S4C fel gwasanaeth ac fel sefydliad. Ar gyfer darlledwr cyhoeddus, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth cynhwysfawr o safon uchel ar deledu a chyfryngau digidol sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa, gan wneud hynny mewn modd effeithlon o ran y defnydd o adnoddau ariannol.

Blaenoriaeth gyntaf S4C yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ar deledu ac ar lwyfannau digidol perthnasol, sy'n cwrdd ag anghenion ei chynulleidfa. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau fod y buddsoddiad yng ngwasanaethau S4C yn rhoi gwerth priodol am arian. Mae'n amcan strategol i sicrhau bod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar raglenni a chynnwys.

Elfen arall o hyn yw sicrhau fod costau rhedeg sefydliad S4C, h.y. y gorbenion, yn parhau i fod yn ganran fechan o wariant S4C. Yn ogystal â gosod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer buddsoddiad S4C mewn rhaglenni a chynnwys, ac felly sicrhau perfformiad ariannol S4C, mae'r Bwrdd hefyd am sicrhau (drwy'r mesuryddion perfformiad a nodir uchod) fod y buddsoddiad hwn yn dwyn ffrwyth, ac yn apelio at gynulleidfa eang yng Nghymru, trwy'r DU a thu hwnt i hynny (lle mae hawliau'n caniatáu).

S4C aims to ensure that the highest possible percentage of S4C's public income is spent on content and services that are comparable in terms of quality with that of other UK networks, whilst ensuring programmes are produced in the most efficient way and ensuring S4C's overheads remain low.

Value for money is the relationship between S4C's cost and performance as a service and as an organisation. For a public service broadcaster, this means providing a high quality, comprehensive service on television and online platforms that is used and valued by the audience, and doing so efficiently in terms of the financial resources available.

S4C's first priority is to provide high quality services, on television and on relevant online platforms, which meet the needs of the audience. It is also important to ensure that the investment in S4C's services ensures appropriate value for money. It is a strategic objective to ensure that the highest possible percentage of S4C's public income is spent on programmes and content.

Ensuring that S4C's running costs as an organisation continue to be a small percentage of S4C's spending is another aspect of this objective. In addition to setting priorities and targets for S4C's investment in programmes and content, and thus securing S4C's financial performance, the Board also wishes to ensure (through the performance measures set out above) that this investment bears fruit, and appeals to a wide audience in Wales, throughout the UK and further afield (where rights permit).

Mae sicrhau Gwerth am Arian yn flaenoriaeth bwysig iawn i S4C.  
**Ensuring Value for Money is a very important priority for S4C.**

## Sut i fesur Gwerth am Arian

Mae S4C yn defnyddio nifer o ddulliau o asesu'r gwerth am arian y mae S4C yn ei gyflawni, gan gynnwys:

- Perfformiad ariannol a ffigyrau gwyllo;
- Dosraniad gwariant S4C, gan gynnwys gorbenion;
- Asesiad o gost cynnwys S4C fesul awr;
- Cost y gwylwr yr awr a chost darparu'r gwasanaeth i'r gwylwyr fesul wythnos;
- Effaith Economaidd S4C; a
- Buddsoddiad S4C ar draws Cymru.

## How to measure Value for Money

S4C uses a number of methods of assessing the value for money that S4C achieves, including:

- Financial performance and viewing figures;
- Distribution of S4C's spending, including overheads;
- Assessment of S4C's content cost per hour;
- Cost per viewer hour and cost of providing the service to the audience per week;
- S4C's economic impact; and
- S4C's investment across Wales.






## Blaenoriaethu gwariant ar raglenni a chynnwys - Dosraniad Gwariant S4C

### Prioritising spending on programmes and content - allocation of S4C's Expenditure

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys. Mae dyraniad gwariant Cronfa Gyhoeddus S4C yn ystod 2018/19 yn dangos fod mwyafrif gwariant S4C yn parhau i gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn rhaglenni a chynnwys S4C, sef buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

Most of S4C's public finance is invested in programmes and content. The allocation of S4C Public Service Fund during 2018/19 shows that the majority of S4C's expenditure continues to be directly invested in S4C's programmes and content, which represents both investment in the services provided for the audience and investment in the production sector in Wales.

Rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C Programmes commissioned by S4C	78.9%
Costau'n ymwneud â'r gwasanaeth rhaglenni Costs associated with the programme service	16.4%
Costau gweithredu a gweinyddu Operating and administration costs	4.7%



Ceir rhagor o wybodaeth am wariant S4C yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y Datganiad Ariannol.  
More information on S4C's expenditure can be found in the Consolidated Statement of Comprehensive Income in the Statement of Accounts.

Gwerth  
Value


## Costau cynhyrchu rhaglenni S4C

### S4C Production Costs


Mae costau cynhyrchu rhaglenni S4C fesul awr yn parhau i fod yn isel iawn o'u cymharu gyda chostau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sy'n darparu gwasanaethau ar draws y DU.

The cost per hour of producing S4C's programmes remains very low compared to the costs of other public service broadcasters that provide services across the UK.

Cost yr awr - rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C  
Cost per hour - programmes commissioned by S4C



Cost yr awr - holl oriau darlledu  
Cost per hour - all broadcast hours





## Partneriaid cynhyrchu S4C yn darparu gwerth am arian sylweddol S4C's production partners provide significant value for money

Mae S4C a'n partneriaid yn y cwmnïau cynhyrchu annibynnol yn llwyddo i ddarparu gwasanaeth eang a phoblogaidd ar lefelau cyllidebol sy'n sylweddol is na darlledwyr yn y DU a darlledwyr rhyngwladol.


Mae costau cyfartaledd S4C fesul awr mewn genres megis adloniant, drama a ffeithiol yn sylweddol is na chostau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill. Mae'r graff isod yn cymharu cyfartaledd costau S4C fesul genre gyda chostau cyfartaledd sydd ar gael ac wedi eu cyhoeddi gan ddarlledwyr PSB eraill.

S4C and our partners in the independent production companies succeed in providing a broad and popular service at budgetary levels that are significantly lower than UK and international broadcasters.

S4C's average costs per hour in genres such as entertainment, drama and factual are significantly below the costs of other public service broadcasters. The graph below compares S4C's average costs per genre with average costs available and published by other PSB broadcasters.

Cyfartaledd costau S4C o'u cymharu gyda chostau a thariffau darlledwyr PSB eraill  
S4C's average costs compared to other PSB costs and tariffs

● C4 ● BBC Rhwydwaith / Network ● BBC Cenhedloedd a Rhanbarthau / Nations and Regions ● ITV ● S4C




## Gwerth Value

Cost darparu gwasanaeth S4C i'r gynulleidfa deledu bob wythnos  
Cost of providing S4C's service to the TV audience every week

Mae'r graff isod yn nodi'r gost fesul wythnos i S4C o ddarparu'r gwasanaeth i'r gynulleidfa (sef cyrhaeddiad cyfartaledd wythnosol gwasanaeth teledu S4C drwy'r DU). Mae'r hafaliad hwn yn ymdebygu i fesur ariannol a ddefnyddir gan gwmnïau teledu masnachol ("ARPU" - cyfartaledd refeniw fesul defnyddiwr ar gyfer gwasanaethau teledu am dal) o ran y refeniw a gynhyrchir gan danygrifwyr dros gyfnod penodol, ond wedi ei addasu er mwyn nodi'r gost i S4C fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus sydd â dyletswydd i ddarparu gwasanaeth am ddim i'r gynulleidfa.


The graph below notes the cost per week per television user for providing the service to the audience (expressed as the average weekly reach of S4C's television service throughout the UK). This equation can be considered similar to a financial measurement used by commercial television companies ("ARPU" - the average revenue per user for subscription services) to report on revenues generated by subscribers over a given period, but adapted to state the cost to S4C as a public service broadcaster that has a duty to provide a free to air service to its audience.



Cost y gwylwr yr awr  
Cost per viewer hour

Mae'r graff isod yn nodi cost y gwylwr yr awr. Mae'r asesiad hwn yn fesur a ddatblygwyd gan y BBC er mwyn asesu'r gost o ddarparu pob awr o wasanaeth teledu (heb gynnwys defnydd arlein) i gynulleidfa'r gwasanaeth (gan ei fesur ar sail maint cyfartaledd y gynulleidfa fesul awr).

The graph below sets out the cost per viewer hour of S4C's service. This assessment is a measure developed by the BBC in order to assess the hourly cost of providing a television service (excluding online use) to the service's audience (measured on the basis of the average hourly size of the audience).





## Effaith Economaidd S4C S4C's Economic Impact

**Mae darparu gwerth am arian hefyd yn golygu sicrhau fod buddsoddiad S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl.**

**Mae'r buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud gan S4C yn ei dro yn creu swyddi mewn cwmnïau a'r gadwyn gyflenwi mewn ardaloedd ar draws Cymru.**

O gyfresi tymor hir fel ein drama Rownd a Rownd sydd wedi creu cnewyllyn creadigol ym Mhorthaethwy, i Prynawn Da a Heno - ein rhaglenni cylchgrawn o Lanelli - i ardrawiad sylweddol dramâu gwreiddiol a gaiff eu ffilmio ar leoliadu ar draws Cymru, caiff cynrychiadau S4C effaith economaidd sylweddol.

**Providing value for money also means ensuring that S4C's investment in the creative industries in Wales has the greatest economic impact.**

**The significant investment made by S4C in turn creates jobs in companies and the production chain in areas across Wales.**

From long-term series such as our Rownd a Rownd drama that has created a creative nucleus in Menai Bridge, to Prynawn Da and Heno - our magazine programmes from Llanelli - to the significant impact of original dramas that are filmed on locations across Wales, S4C's productions have a substantial economic impact.

Mae S4C yn cael effaith economaidd sylweddol ar economi Cymru  
S4C has a significant economic impact on the Welsh economy



Mae pob £1 sy'n cael ei wario gan S4C gyda chwmnïau annibynnol a chyflenwyr eraill yn mwy na dyblu yn ei werth, gan greu gwerth o £2.09 i'r economi.

Every £1 that S4C spends with independent production companies and other suppliers in turn more than doubles to create an impact of £2.09 within the economy.

Gwerth  
Value

## S4C yn cyfrannu at refeniw trethi - Effaith Ffisical S4C contributes to tax revenues - Tax Effect



Am bob £1 sy'n cael ei ddarparu i S4C, mae £0.51 yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys mewn trethi.  
For every £1 provided to S4C, £0.51 is returned to HM Treasury in taxes.

Yn ogystal ag effaith economaidd sylweddol yng Nghymru a'r DU, mae gwaith S4C hefyd yn gyfrifol am greu refeniw trethi sylweddol sy'n cael ei dalu i'r Trysorlys gan gwmnïau ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau i S4C a'r cwmnïau cynhyrchu.

Mae ymchwil a gynhaliwyd ar ran S4C (gan gwmni ymgynghorwyr Arad) yn amcangyfrif fod cyfraniadau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn sgîl gweithgareddau craidd S4C yn £39m y flwyddyn.

Mae hyn gyfystyr â dychwelyd £0.51 ar gyfer bob £1 o holl wariant S4C i'r Trysorlys, naill ai mewn cyfraniadau treth uniongyrchol neu anuniongyrchol.

As well as a significant economic impact in Wales and the UK, S4C's work is also responsible for creating significant tax revenues paid to HM Treasury by companies and individuals providing services to S4C and the production companies.

Research carried out on behalf of S4C (by Arad) estimates that direct and indirect tax contributions from S4C's core activities is £39m per annum.

This equates to a return of £0.51 for every £1 of S4C's total expenditure to HM Treasury, either in direct or indirect tax contributions.



## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru S4C's investment in content from companies across Wales

Mae S4C yn buddsoddi ac yn comisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu ar draws Cymru, gan gynnwys yng Nghaernarfon, Llanelli, Abertawe a Chaerdydd.

O ganlyniad, mae effaith economaidd S4C yn cael ei ledaenu mewn cymunedau yng Ngogledd, Gorllewin a De Ddwyrain Cymru.

Mae cwmnïau cynhyrchu yn cael effaith sylweddol ar eu heconomiâu lleol a thu hwnt i'w dalgylch wrth i gynyrchiadau deithio'r wlad i ffilio cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru. Mae cyfraniad y cwmnïau cynhyrchu hefyd yn cyfrannu at weithlu medrus iawn sy'n sail i sector gynhyrchu o'r radd flaenaf yng Nghymru sy'n denu cynyrchiadau teledu, ffilm a chynnwys digidol o wledydd ledled y byd.

(Mae'r data isod yn berthnasol i leoliad swyddfeydd y cwmnïau cynhyrchu, ac nid yw'n adlewyrchu gweithgaredd cynhyrchu neu wariant mewn lleoliadau ar draws Cymru)

S4C invests and commissions content from production companies across Wales, including Caernarfon, Llanelli, Swansea and Cardiff.

As a result, S4C's economic impact is spread in communities in North, West and South East Wales.

Production companies have a significant impact on their local economies and beyond their catchment area as productions travel the country to film content that reflects Wales. The contribution of the production companies also contributes to a highly skilled workforce that underpins a world class production sector in Wales that attracts television, film and digital content from countries around the world.

(The data below relates to the location of production company offices, and does not reflect production activity or expenditure in locations across Wales)

Gwerth  
Value

## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru S4C's investment in content from companies across Wales

**Mae S4C yn falch iawn o'r bartneriaeth greadigol sy'n bodoli gyda'r sector gynhyrchu annibynnol.**

Mae ystod eang o gwmnïau, partneriaid creadigol a sefydliadau yn cydweithio gydag S4C er mwyn darparu ystod eang o gynnwys safonol a phoblogaidd. Mae'r rhestr isod yn nodi'r cwmnïau cynhyrchu, partneriaid creadigol, sefydliadau cenedlaethol a mudiadau a gydweithiodd gydag S4C yn ystod y flwyddyn i ddarparu cynnwys a ddarledwyd ar wasanaeth S4C.


**S4C is very proud of the creative partnership that exists with the independent production sector.**

A wide range of companies, creative partners and organisations work with S4C to provide a wide range of high quality and popular content. The list below sets out the production companies, creative partners and organisations that collaborated with S4C during the year to provide content for S4C's service.

### Gwariant Rhanbarthol Regional Spending

2018/19

Gogledd Cymru North Wales (2017/18: 26%)	26%
De Cymru South Wales (2017/18: 51%)	54%
Gorllewin Cymru West Wales (2017/18: 21%)	18%
Tu allan i Gymru Outside Wales (2017/18: 2%)	2%
Cyfanswm Total	100%



### Partneriaid yn y sector gynhyrchu annibynnol Independent production sector partners

Amaury Sport Organisation
Antena
Avanti Media
Awen Media
Boom Cymru
BBC
Captain Jac
Ceidiog
Celtic Rugby
Chwarel
Clwb Peldroed Dinas Caerdydd
Craith
Cube Ciwb
Cube Entertainment
Cwmni Da
Cymdeithas Amaethyddol
Frehiniol Cymru
Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
Cymdeithas Pel Droed Cymru
Cynhyrchiadau Alpha
Productions
Cynyrchiadau Twt Productions
Darlun
DearHeart Productions
Dojo Arcade
Dream Team Television

Eisteddfod Genedlaethol Cymru
European Broadcasting Union
Ffilmiau Twm Twm
Fiction Factory
Griffiths Animation Studio
Hoho Rights
Hoi Polloi Pictures
IB Tournaments
le le Productions
ITV
Jam Creative Studios
Joio
Kailash Films
Keeping Faith Productions/Vox
Pictures
Kreu Media
Lefel Dau
Lens 360
Little Bird Films
Media Atom
Mr Tonken
Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru
Nimble Dragon
On Par Productions
Optimwm
Orchard Media & Events Group

Phil McIntyre Television
Rondo Media
Rugby World Cup
Sain
Slam Media
Slaycorp
Sports Management Europe
Sports Media Services
Sunset & Vine Productions
Tanabe MMV International
Tarian
Telesgop
Terranoa
The Scottish Professional
Football League
Thud Media
Tinopolis
Tinopolis Interactive
Triogl
Undeb Rygbi Cymru
Unigryw
Urdd Gobaith Cymru
Wes Gleii
Wildflame Productions
WRC Promoter

### Partneriaid eraill Other partners

Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Eisteddfod yr Urdd
Eisteddfod Ryngwladol
Llangollen
Cymdeithas Amaethyddol
Frehiniol Cymru
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg
Genedlaethol
Mudiad Meithrin
Urdd Gobaith Cymru
Cyngor Llyfrau Cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Canolfan y Mileniwm
Theatr Genedlaethol Cymru
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
BAFTA Cymru
RTS Cymru
It's My Shout
Llenyddiaeth Cymru
Ffilm Cymru
Cymdeithas Cerdd Dant Cymru
Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru

## Croesawu pawb i wyluo S4C - Gwasanaethau Cymorth i'n cynulleidfa

Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posibl yn bwysig iawn i S4C.

**Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd bwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.**

**Mae isdeitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrîn yn darparu ystod o wasanaethau sy'n cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Gymraeg o bob lefel rhuglder a'r di-Gymraeg.**

**Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y fwyddyn:**

### Is-deitlau Cymraeg

Mae'r isdeitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw sy'n siarad Gymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Gymraeg. Darparwyd isdeitlau Cymraeg ar 25 awr o raglenni bob wythnos ar gyfartaledd, cynnydd o'r 10-12 awr a ddarparwyd yn y gorffennol.

Mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Clic.

### Is-deitlau Saesneg

Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di- Gymraeg, pobl fyddar a phobl trwm eu clyw. Trwy wasgu'r botwm "Is-deitlau" ar y teclyn rheoli, gellir gweld isdeitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw.

Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag isdeitlau agored. Fel arfer, ailddarllodiadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain.

Yn ystod y flwyddyn roedd is-deitlau Saesneg ar gael ar 74.83% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 53%).

### Sain Ddisgrifio

Mae'r gwasanaeth Sain Ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu sydd â diffygion golwg i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 10.23% o'r rhaglenni - (targed Ofcom yw 10%).

### 'Arwyddo' rhaglenni

Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 6.32% o raglenni (targed Ofcom yw 5%).

### Llinell gymorth 'Gwifren Gwylwyr'

Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy ffonio, e-bostio, gysylltu ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr ar gael yng nghefn yr adroddiad hwn. Mae'r gwasanaeth ar gael o 09.00 tan 22.00, saith diwrnod yr wythnos.

## Welcoming everyone to watch S4C - Support Services for our audience

Making S4C's content available to the widest possible audience is very important to S4C.

**Access services continue to provide an important means to enable S4C to expand its audience and its appeal.**

**Subtitling in Welsh and English, together with signing, audio description and descriptive second screen services provide a range of services that enhance S4C's offering and make content available to those with particular needs as well as to a wider community of Welsh speakers, non-Welsh speakers and learners of all levels of fluency.**

**The following services were provided during the year:**

### Welsh subtitles

These subtitles are provided primarily for the deaf and hard of hearing who understand Welsh as well as for people learning to speak Welsh. Welsh language subtitles were provided on 25 hours of programmes a week on average, an increase from 10-12 hours in previous years.

Welsh language and English language subtitles are also available on the S4C Clic service.

### English subtitles

The aim of this service is to enhance the appeal of programmes to non-Welsh speaking, and deaf and hard of hearing viewers. By pressing the "subtitle" button on the remote control, subtitles can be accessed on all kinds of programmes, including live programmes.

Some programmes were broadcast with automatic on-screen subtitles. These are usually repeats of popular programmes.

During the year, subtitles were available on 74.83% of programmes (Ofcom's Target is 53%).

### Audio Description

The Audio Description service on selected programmes provides a commentary in Welsh to fill the gaps during periods when there is no dialogue in programmes. It includes additional description that assists blind or partially sighted users. The service was provided on 10.23% of programmes (Ofcom's Target is 10%).

### Signing

A number of programmes, usually at weekends, are broadcast using BSL (British Sign Language) for deaf viewers and those who use BSL. The service was available on 6.32% of programmes (Ofcom's Target is 5%).

### Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline)

Our viewers can contact S4C directly by either phoning, emailing, contacting via social media or sending a letter to Gwifren Gwylwyr. Gwifren Gwylwyr's contact details are available at the back of this report. The service is available from 09:00 until 22:00 seven days a week.

## S4C yn gwranddo ar ein gwylwyr

Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C.

**Mae cyfleoedd ar gael drwy gydol y flwyddyn i'r gynulleidfa gysylltu a thrafod gydag S4C.**

**Yn ystod 2018/19 cynhaliwyd nifer sylweddol o weithgareddau cymunedol ledled Cymru er mwyn rhoi cyfle i'r gynulleidfa fod yn rhan o arlwy S4C a mynegi barn am wasanaethau S4C.**

## S4C listening to our viewers

Ensuring a regular dialogue and relationship with the audience is very important to S4C.

**There are opportunities throughout the year to engage with S4C.**

**During 2018/19 a significant number of community events were held across Wales to give the audience an opportunity to be involved in S4C's provision and a chance to voice their opinions about S4C's service.**





Digwyddiad Event	Lleoliad Location
<b>Digwyddiadau Cenedlaethol National Events</b>	
Eisteddfod yr Urdd	Llanelwedd
Y Sioe Frenhinol	Llanelwedd
Eisteddfod Genedlaethol	Caerdydd
<b>Digwyddiadau Hyrwyddo Promotional Events</b>	
Cyw yn Gelli Gyffwrdd	Caernarfon
Cyw yng Nghanolfan Mileniwm Cymru	Caerdydd
Cyw yn Fferm Ffoli	Sir Benfro
Sioe Asra yng Ngŵyl Cefni	Llangefni, Ynys Môn
Cyw yn Tafwyl	Caerdydd
Cyw yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Conwy 2019	Llanrwst
Cyw yng Ngŵyl Halibaw Llundain	Canolfan Cymry Llundain
Agoriad yr Egin – Ben Dant	Canolfan S4C yr Egin, Caerfyrddin
Taith Nadolig Cyw	Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Ysgol Gyfun Bro Edern Neuadd y Gwendraeth Theatr y Dywysoges Frenhinol Ysgol Uwchradd Llanfyllin Ysgol Gyfun Penweddig Ysgol Bro Teifi Ysgol Gyfun Glan Clwyd Ysgol Gyfun Llangefni Galeri Caernarfon Ysgol Gyfun Glan y Môr
Gwyl Cymryd Rhan, Llandudno	Llandudno
<b>Nosweithiau Gwylwyr Viewers' Evenings</b>	
Caerfyrddin / Carmarthen	Yr Egin
Llandudno	Venue Cymru
Y Trallwng / Welshpool	Neuadd y Dref

## Gweithgareddau S4C ledled Cymru

Taith Pen-blwydd Cyw Cyw's Birthday Tour	
Lleoliad Location	
Meithrinfa Caban Bach, Blaenau Ffestiniog	Ysgol Gymraeg Teilo Sant, Llandeilo
Ysgol y Gorlan, Porthmadog	Ysgol Bryniago, Pontarddulais
Ysgol Cymerau, Pwllheli	Ysgol Gynradd Cwmrhydyceirw, Abertawe
Ysgol Gynradd Nefyn, Pwllheli	Ysgol Gymraeg Lon Las, Abertawe
Ysgol y Gelli, Caernarfon	Ysgol Gynradd Rhosafan, Port Talbot
Meithrinfa Medra, Llangefni	Meithrin Ysgol Cynwyd Sant, Maesteg
Cylch Meithrin Porthaethwy	Ysgol Gymraeg Bro Ogwr, Pen y Bont
Cylch Meithrin Ffalabalam, Bangor	Ysgol Llantrisant, Pontyclun
Cylch Meithrin Ysgol Bodhyfryd, Wreccsam	Ysgol y Wern, Caerdydd
Ysgol Glanrafon, Yr Wyddgrug	Ysgol Bro Eirwg, Caerdydd
Ysgol Pen Barras, Rhuthun	Ysgol Pencae, Caerdydd
Ysgol Henllan, Dinbych	Ysgol Gymraeg Evan James, Pontypridd
Ysgol Llanefydd, Dinbych	Ysgol Abercynon
Ysgol Betws yn Rhos, Abergele	Ysgol Santes Tudful, Merthyr
Meithrinfa Abergele	Cylch Meithrin Ysgol Y Fenni
Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Rhyl	Ysgol Gymraeg Y Fenni
Meithrinfa Seren Fach, Dolgellau	Ysgol Gymraeg Cwmbran
Cylch Meithrin Dolgellau	Uned Meithrin Ysgol Casnewydd
Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth	Ysgol Pen y Pil, Caerdydd
Ysgol Gynradd Carno, Caersws	Ysgol Gwaun y Nant, Y Barri
Ysgol Dyffryn Trannon, Caersws	Ysgol Coed y Gof, Caerdydd
Ysgol Penllwyn, Aberystwyth	Ysgol Glan Morfa, Caerdydd
Camau Bach, Aberystwyth	Ysgol Gymraeg Nant Caerau, Caerdydd
Ysgol Gymraeg Aberystwyth	Ysgol Gymraeg Pen y Garth, Penarth
Ysgol Llanllwni, Pencader	Meithrinfa Ddydd Corwen
Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin	Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst
Meithrin Cwtsh y Clos, Caerfyrddin	Ysgol Bro Tryweryn, Bala
Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan	Ysgol Cerrigydrudion, Corwen
Ysbyty Bronglais, Aberystwyth	Ysgol Dolgarrog, Tal-y-bont
Tŷ Hafan, Caerdydd	Ysgol O. M. Edwards, Llanuwchllyn

## S4C's activities across Wales

## Partneriaeth S4C gyda'r BBC

### Mae S4C a'r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth ers sefydlu S4C yn 1982.

Mae'r bartneriaeth yn ymestyn i feysydd cyflenwi rhaglenni, cyd gynhyrchu, cydweithio creadigol, technoleg a llwyfannau ac ariannu.

#### Cyflenwi rhaglenni

Ers 1982, mae BBC Cymru wedi darparu nifer o gonglfeini gwasanaeth S4C, gan gynnwys Pobol y Cwm, y ddarpariaeth newyddion, elfennau o'r ddarpariaeth chwaraeon a darllediadau cynhwysfawr o'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r ddarpariaeth yma, sy'n seiliedig ar ymrwymiad statudol, yn darparu lleiafswm o 520 o oriau o raglenni sy'n cael eu cynhyrchu gan BBC Cymru ar gyfer S4C. Mae'r ystod o raglenni o fewn y ddarpariaeth hon sy'n cael ei chytuno rhwng S4C a'r BBC bob blwyddyn, yn rhan bwysig o amserlen S4C bob wythnos o'r flwyddyn ac yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y gynulleidfa.

Yn dilyn sicrhau hawliau ar gyfer pencampwriaeth y Pro14 gan S4C, mae'r BBC yn parhau i gynhyrchu darpariaeth S4C o'r Pro14.

#### Creadigol

Mae partneriaeth greadigol S4C a'r BBC yn parhau i gael ei arwain gan gydweithio creadigol - o fewn y rhaglenni a ddarperir gan S4C i'r BBC, fel Pobol y Cwm a Newyddion, a hefyd cydweithio creadigol ehangach.

Mae S4C a'r BBC yn parhau i ddatblygu nifer o syniadau a phrosiectau, gan gynnwys cydweithredu ar brosiectau a gweithgareddau hyrwyddo gyda Radio Cymru a Cymru Fyw. Mae cyfleoedd traws-hyrwyddo ar S4C a gwasanaethau'r BBC yn cynnig cyfleoedd pwysig i godi ymwybyddiaeth o gynnwys S4C ymhlith cynulleidfa eang.

Prynodd BBC Cymru gyfres trosedd gyffrous gwreiddiol S4C, Bang, i'w darlledu ar wasanaethau'r BBC - sy'n dyst i werth syniadau a ddatblygwyd gan S4C.

#### Technoleg a llwyfannau

Mae presenoldeb cynnwys S4C ar BBC iPlayer yn parhau i fod yn ddull pwysig iawn o gynnig ein cynnwys i gynulleidfa eang. Mae'r iPlayer yn rhoi amlygrwydd i gynnwys S4C ar draws ystod eang o ddyfeisiau na fyddai fel arall ar gael i S4C. Mae S4C a'r BBC yn parhau i drafod datblygiadau iPlayer ar gyfer y dyfodol, a sut y gall S4C fanteisio ar ddatblygiadau megis personoli'r iPlayer ar gyfer defnyddwyr a chynnis manteision eraill ychwanegol i gynulleidfa S4C.

#### Cytleoli Gwasanaethau Technegol Darlledu

Datblygwyd ymhellach y paratoadau ar gyfer cytleoli a rhannu gwasanaethau technegol darlledu S4C a'r BBC yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog Caerdydd o 2020 yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith technegol cymhleth o gynllunio, datblygu a phrofi cyfuno'r amryw systemau yn datblygu'n addawol iawn. Ym mis Chwefror, trosglwyddodd 34 aelod o staff S4C i'r BBC fel rhan o baratoi ar gyfer cyd-leoli a rhannu'r gwasanaethau technegol darlledu.

## S4C's partnership with the BBC

### S4C and the BBC have worked in partnership since the creation of S4C in 1982.

S4C's partnership spans areas including programme supply, co-production, creative collaboration, technology & platforms and funding.

#### Programme supply

Since 1982, BBC Cymru has supplied a number of key elements of S4C's service, including Pobol y Cwm, news provision, elements of sports provision and extensive coverage of the National Eisteddfod of Wales. This provision, which is based on a statutory requirement, provides a minimum of 520 hours of programming produced by BBC Cymru for S4C. The range of programmes within this provision, which is agreed between S4C and the BBC each year, is an important part of S4C's daily schedule and is highly appreciated by the audience.

Following S4C securing rights for coverage of the Pro14 tournament, the BBC continued to produce S4C's coverage of the Pro14.

#### Creative

S4C's partnership with the BBC continues to be driven by creative collaboration - within the programming provided by the BBC to S4C, such as Pobol y Cwm and Newyddion, and also wider creative collaboration.

S4C and the BBC continue to develop a number of ideas and projects, including cooperation on projects and promotions with Radio Cymru and Cymru Fyw. Cross-promotion opportunities on S4C and the BBC's services offer important opportunities to raise awareness of S4C's content amongst a wide audience.

BBC Cymru acquired the S4C Original crime thriller series, Bang, for broadcast on the BBC's services - an indication of the value placed on ideas developed by S4C.

#### Technology and platforms

